

Adroddiad yr Adolygiad o Foderneiddio Nyrsio Anableddau Dysgu yn y DU

Rhagair	2
Rhagair gan Grŵp Cydgynhyrchu'r Adolygiad o Foderneiddio Nyrsio Anableddau Dysgu	3
Crynodeb gweithredol	4
Y broblem	4
Beth y mae arnom eisiau ei gyflawni	4
Y ffordd ymlaen	5
Cyflwyniad	6
Heriau iechyd a gofal cymdeithasol	6
Y sefyllfa bresennol	7
Yr Adolygiad o Foderneiddio Nyrsio Anableddau Dysgu yn y DU	9
Trosolwg o'r adroddiad	10
Pennod 1. Cryfhau capasiti	14
1.1 Lleoliad a chyflogaeth	14
1.2 Cynllunio a datblygu gweithlu strategol	15
1.3 Ffyrdd newydd o weithio a rolau newydd	16
1.4 Dewisiadau gyrfaol	19
Pennod 2. Cryfhau gallu	24
2.1 Cynyddu cyfraniad nyrsio anableddau dysgu	24
2.2 Gweithio gyda phobl o bob oed	26
2.3 Rhoi sylw i anghenion iechyd	28
2.4 Darparu gwasanaethau arbenigol	31
Pennod 3. Cryfhau ansawdd	36
3.1 Dangos canlyniadau ansawdd	36
3.2 Gwellu ansawdd	39
3.3 Paratoi a datbygu nyrsys anableddau dysgu	39
3.4 Cynyddu recriwtio a chadw	41
3.5 Datblygu gwybodaeth a sgiliau'r gweithlu ar gyfer y dyfodol	42
3.6 Cael mynediad at oruchwyliaeth	43
Pennod 4. Cryfhau'r proffesiwn	46
4.1 Arweiniad a rheolaeth	46
4.2 Hyrwyddo'r proffesiwn	47
4.3 Ymchwil a thystiolaeth	50
Casgliad a chamau nesaf	54
Atodiad 1. Polisiâu allweddol ac ysgogiad proffesiynol yn y pedair gwlad	58
Atodiad 2. Aelodau'r grwpiau llywio	64
Cyfeiriadau	70

Rhagair

Mae fy ymrwymiad proffesiynol i nyrsio anableddau dysgu wedi ei sefydlu ers tro. Datblygodd o gipolwg personol yn gynnar yn fy ngyrfa ar y rôl hollbwysig y mae nyrsys anableddau dysgu'n ei chwarae ym mywydau pobl sydd ag anableddau dysgu, eu teuluoedd a'u gofalwyr, y cymwyseddau lefel uchel hynod gymhleth sydd ganddynt, a'r eiriolaeth, yr angerdd a'r ymroddiad y maent yn ei ddangos. Mae'n bleser gennyf felly gyflwyno'r adroddiad hwn ar yr Adolygiad o Foderneiddio Nyrsio Anableddau Dysgu yn y DU ar ran prif swyddogion nyrsio'r llywodraeth.

Mae rôl a phroffil nyrsio anableddau dysgu wedi newid llawer yn ystod y tri degawd diwethaf. Mae'r newid sylfaenol o ofal sefydliadol i fodel darparu cymdeithasol sy'n seiliedig ar annibyniaeth, cynhwysiant a grymuso wedi arwain at welliant sylweddol ym mywydau pobl sydd ag anableddau dysgu, ond mae wedi lleihau'r galw am nyrsio anableddau dysgu fel maes arbenigol. O ganlyniad, mae'r gweithlu nyrsio anableddau dysgu erbyn heddiw yn llai ac wedi'i wasgaru'n ehangach nag erioed ar draws y sector iechyd a gofal cymdeithasol; a thra mae gan rai nyrsys rolau nyrsio anableddau dysgu arbenigol, mae gan lawer o rai eraill rolau gofalu neu reoli mwy cyffredinol.

Mae hyn wedi arwain at ddiffyg canolbwynt a chyfeiriad i nyrsio anableddau dysgu, at chwalu'r gymuned nyrsio anableddau dysgu ac, o bosibl, at golli sgiliau nyrsio craidd a sgiliau nyrsio anableddau dysgu arbenigol yn y system ar adeg pan mae'r galw (sydd ar gynydd yn barod) yn debygol o gynyddu. Mae mwy a mwy o blant sy'n cael eu geni ag anableddau dysgu bellach yn goroesi ac yn cyrraedd eu harddegau, yn dod yn oedolion ac yn cyrraedd oedran mawr, a'r ystod gymhleth o broblemau meddygol a phroblemau iechyd sy'n dod yn sgil hynny: mae arnynt angen cymorth nyrsio anableddau dysgu arbenigol drwy'r rhychwant oes.

Wrth sefydlu'r adolygiad, ceisiodd prif swyddogion nyrsio'r DU ddod â'r mater hwn i sylw pobl sydd ag anableddau dysgu, eu teuluoedd a'u gofalwyr, llunwyr polisïau, comisiynwyr, gwasanaethau, arweinwyr proffesiynol a'r gweithlu anableddau dysgu fel bod modd i ni baratoi ar gyfer yr heriau a'r cyfleoedd sydd o'n blaenau. Roeddem hefyd yn awyddus i atgoffa pawb ynglŷn â'r traddodiad balch iawn sy'n sail i nyrsio anableddau dysgu ac ynglŷn â phwysigrwydd cyfraniad ac ymrwymiad nyrsys anableddau dysgu mewn byd sy'n newid.

Gwahoddir y pedair gwlad yn awr i ystyried argymhellion yr adroddiad a symud ymlaen wedyn fel sy'n briodol yn eu cyd-destun eu hunain.



Ros Moore

Prif Swyddog Nyrsio, Llywodraeth yr Alban

Rhagair gan Grŵp Cydgynhyrchu'r Adolygiad o Foderneiddio Nyrsio Anableddau Dysgu

Ni yw'r Grŵp Llywio ar gyfer Cydgynhyrchu'r Adolygiad o Foderneiddio Nyrsio Anableddau Dysgu ar gyfer yr adolygiad o Foderneiddio Nyrsio Anableddau Dysgu yn y DU. Rydym yn bobl sydd ag anableddau dysgu, pobl sydd ag awtistiaeth a gofalwyr teuluoedd. Mae gan bob un ohonom brofiad o nyrsio anableddau dysgu ac rydym yn awyddus i'w weld yn cael ei wella a'i ddatblygu. Dylai hyn fod yn gyson ar hyd a lled y DU.

Rydym wedi mwynhau gweithio ar hyn a chyflwyno ein syniadau. Gallwn weld ein syniadau yn yr adroddiad ond dim ond y cam cyntaf yw hwn. Bydd y cam gweithredu'n bwysicach fyth, oherwydd bydd yn arwain at y nod o ganlyniadau da i bobl. Rydym yn awyddus i weld pobl sydd ag anableddau dysgu, pobl sydd ag awtistiaeth a gofalwyr teuluoedd yn cael eu cynnwys mewn ffordd ystyrlon ym mhob rhan o'r gwaith hwn.

Ein gobaith yw y bydd yr argymhellion yn datblygu gwell gofal nyrsio yn y dyfodol i bobl sydd ag anableddau dysgu drwy gydol eu hoes. Mae pobl yn gymhleth ac mae angen i nyrsys anableddau dysgu ddod o hyd i ffyrdd hygyrch o rannu gwybodaeth a gweithio gyda'i gilydd er mwyn sicrhau gofal iechyd cyfannol o safon uchel. Pobl yw'r arbenigwyr ar eu bywyd, eu hiechyd a'u gofal.

Hoffem weld pobl sy'n gwneud penderfyniadau'n defnyddio'r argymhellion hyn ac yn ymrwymo i neilltuo cyllid er mwyn eu rhoi ar waith. Fel grŵp, rydym yn gwerthfawrogi'r adroddiad ac yn teimlo ei bod yn bwysig bod yr argymhellion yn cael eu gweithredu.

Crynodeb gweithredol

Y broblem

Mae tua 1.5 miliwn o bobl ym Mhrydain sy’n byw gydag anableddau dysgu.^A Mae’r nifer hwn yn debygol o gynyddu 14 y cant rhwng 2001 a 2021^B gan fod datblygiadau mewn gwyddoniaeth a gofal yn golygu bod llawer mwy o blant sydd ag anableddau dysgu’n byw bywydau hirach a llawnach nag erioed o’r blaen, a chan fod mwy a mwy o oedolion sydd ag anableddau dysgu’n byw yn hŷn. Er bod hyn i’w groesawu’n fawr, rhaid i lywodraethau’r pedair gwlad fod yn sicr bod eu systemau iechyd a gofal cymdeithasol yn barod ar gyfer y newid yn anghenion iechyd y boblogaeth anableddau dysgu.

Mae nyrsio anableddau dysgu bob amser wedi bod yn ddylanwad mawr ar iechyd pobl sydd ag anableddau dysgu, eu teuluoedd a’u gofalgwyr, ac mae’r galw’n debygol o gynyddu. Fodd bynnag, o ganlyniad i newidiadau yn agwedd cymdeithas at bobl sydd ag anableddau dysgu ac at eu gofal, mae nyrsys anableddau dysgu wedi cael eu gwasgaru’n ddaearyddol rhwng ystod o ddarparwyr sector cyhoeddus ac annibynnol ac maent yn cael eu cyflogi mewn nifer o wahanol rolau. O ganlyniad, mae nifer y nyrsys anableddau dysgu wedi lleihau dros y blynyddoedd, ac mae llawer yn agos at oed ymddeol erbyn hyn.

Beth y mae arnom eisiau ei gyflawni

Mae’r Adolygiad ar Foderneiddio Nyrsio Anableddau Dysgu yn y DU yn awyddus i sicrhau y bydd pobl sydd ag anableddau dysgu, beth bynnag eu hoed, heddiw ac yfory, yn cael mynediad at y nyrsio anableddau dysgu arbenigol y mae arnynt ei angen, y mae arnynt ei eisiau, ac y maent yn ei haeddu. Mae hynny’n golygu bod angen i ni ganolbwyntio o’r newydd ar nyrsio anableddau dysgu ac efallai y bydd angen buddsoddi mewn gwasanaethau neu wneud buddsoddiad strategol er mwyn adeiladu a datblygu’r gweithlu. Nod yr adolygiad yw rhoi cyfeiriad pendant i nyrsio anableddau dysgu er mwyn sicrhau ein bod yn gallu bodloni’r galw presennol a’r galw yn y dyfodol, a bod y gweithlu’n barod ac yn abl i chwarae mwy o ran yn y system iechyd a gofal cymdeithasol drwyddi draw. Mae arnom hefyd eisiau sicrhau’r profiadau a’r cyfleoedd gyrfaol gorau i nyrsys anableddau dysgu ac, yn bennaf oll, y profiad gorau o gefnogaeth a gofal i bobl sydd ag anableddau dysgu, eu teuluoedd a’u gofalgwyr.

Mae’r adolygiad yn gwneud nifer o argymhellion manwl (sydd i’w gweld drwy gydol yr adroddiad hwn, ac y ceir crynodeb ohonynt yn Nhabl 2) gyda’r bwriad o “gryfhau ein hymrwymiad” i nyrsio anableddau dysgu ar draws y sector cyhoeddus. Mae’r argymhellion hyn yn seiliedig ar bedair egwyddor drefnu glir iawn sy’n cefnogi diwygio.

Cryfhau capasiti

Mae gwybodaeth gywir ynglŷn ag ym mhle mae nyrsys anableddau dysgu’n gweithio yn y GIG a’r tu allan iddo yn bwysig er mwyn cynllunio’r gweithlu a sicrhau bod rhaglenni addysg yn dal yn berthnasol. Mae angen gwneud rhagor o waith yn y pedair gwlad er mwyn canfod maint y gweithlu, gan gynnwys y rhai hynny sy’n gweithio yn y sector annibynnol/gwirfoddol ac

^A Ffynhonnell: Mencap (www.mencap.org.uk/all-about-learning-disability/information-professionals/more-about-learning-disability).

^B **Emerson E, Hatton C (2008)** *Estimating Future Need for Adult Social Care Services for People with Learning Disabilities in England*. Centre for Disability Research: Lancaster.

mewn gofal cymdeithasol, fel bod modd datblygu a gweithredu cynlluniau datblygu gweithlu strategol. Dylid cael datganiad clir ynglŷn â’r hyn y mae arnom ei eisiau gan nyrsys anableddau dysgu wrth symud ymlaen, a dylid eu galluogi i gynllunio eu datblygiad gyrfaol er mwyn diwallu anghenion pobl sydd ag anableddau dysgu, heddiw ac yn y dyfodol.

Cryfhau gallu

Mae’r sail gwerthoedd ar gyfer nyrsio anableddau dysgu’n dal yn gryf a dylem sicrhau bod systemau’n cadw ac yn cyfnerthu agweddau a gallu i gyflawni dulliau gweithredu sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy’n seiliedig ar gryfderau. Yr un pryd, mae sgiliau, gwybodaeth a chymwyseddau’n newid, a rhaid eu hehangu er mwyn adlewyrchu’r newid yn anghenion pobl sydd ag anableddau dysgu.

Mae’r dystiolaeth yn dangos yn glir nad yw iechyd pobl sydd ag anableddau dysgu gystal ag iechyd y boblogaeth gyffredinol. Yn ychwanegol at hyn, mae llawer yn cael anhawster i gael mynediad at wasanaethau iechyd cyffredinol ac i’w defnyddio. Mae gan nyrsys anableddau dysgu rôl bwysig i’w chwarae wrth gefnogi mynediad cyflym at wasanaethau, yn ogystal â chyfrannu tuag at ofal ataliol a rhagflaenol.

Cryfhau ansawdd

Mae pob un o’r pedair gwlad yn ymwneud ar hyn o bryd â rhaglenni arwyddocaol a fydd yn trawsnewid systemau ac yn gwella’u heffeithlonrwydd a’u hansawdd. Rhaid i nyrsys anableddau dysgu groesawu’r datblygiad hwnnw ac ystyried sut y gallant ddangos effaith drwy ganlyniadau mesuradwy ac ymyriadau seiliedig ar dystiolaeth sy’n gwella diogelwch, cynhyrchiant ac effeithiolrwydd ochr yn ochr â dulliau traddodiadol sy’n canolbwyntio ar unigolion.

Mae gweithlu sydd wedi cael ei baratoi’n dda, ac sy’n cael ei ddatblygu a’i gefnogi ar bob lefel (gan gynnwys gweithwyr heb eu cofrestru) yn hanfodol er mwyn darparu gofal iechyd o safon i bobl sydd ag anableddau dysgu, a thrwy addysg a hyfforddiant drwy gydol y llwybr gyrfaol y mae cyflawni hyn.

Cryfhau’r proffesiwn

Bydd arweiniad cryf yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod yr argymhellion o’r adroddiad hwn yn cael eu rhoi ar waith a bod y rhwydweithiau presennol ar gyfer nyrsys anableddau dysgu ledled y DU yn dal i ddarparu llwyfan cryf er mwyn dathlu, hyrwyddo a datblygu eu cyfraniad unigryw. Mae’r rhain wedi tueddu i gael eu datblygu’n bennaf ar gyfer staff y GIG, felly un cam allweddol yw sicrhau bod y proffesiwn nyrsio anableddau dysgu’n cynnwys aelodau o bob sector er mwyn creu màs critigol o arweinwyr a fydd yn gweithio gyda’i gilydd i sicrhau newid a siarad ar ran y proffesiwn a’r rhai hynny y maent yn eu gwasanaethu.

Y ffordd ymlaen

Rydym yn sylweddoli cymaint o her fydd hyn. Bydd y cyfan yn digwydd mewn cyfnod o ddirwasgiad, ansicrwydd a gwahaniaethau cynyddol rhwng pedair system gofal iechyd y DU. Fodd bynnag, ni allwn anwybyddu’r ffactorau demograffig a nodwyd uchod, a dyna pam y mae angen ymrwymiad ac ymgysylltiad ar lefel uchel gan chwaraewyr allweddol. Mae adrannau iechyd llywodraeth y DU, cyflogwyr, addysgwyr, pobl sydd ag anableddau dysgu, eu teuluoedd a’u gofalgwyr, nyrsys anableddau dysgu a staff iechyd a gofal cymdeithasol ehangach i gyd yn hollbwysig er mwyn sicrhau llwyddiant.

Cyflwyniad

Mae systemau iechyd a gofal cymdeithasol ledled y DU yn dal i wynebu newid strategol, strwythurol ac economaidd sylweddol, gan ganolbwyntio mwy ar leoliaeth ac integreiddio, newidiadau mewn strwythurau comisiynu a phwyslais cryf ar ganlyniadau a thryloywder. Rhaid i nyrsio anableddau dysgu addasu er mwyn bodloni gofynion y newid hwn.

Nod yr Adolygiad o Foderneiddio Nyrsio Anableddau Dysgu yn y DU yw sicrhau bod y gwasanaethau gorau posibl yn cael eu darparu i bobl sydd ag anableddau dysgu, eu teuluoedd a’u gofalwyr, heddiw ac yn y dyfodol, a bod gennym broffesiwn nyrsio anableddau dysgu llewyrchus sy’n cael ei werthfawrogi.

Heriau iechyd a gofal cymdeithasol

Poblogaeth

Mae nifer y bobl sydd ag anableddau dysgu’n cynyddu yn y DU ac mewn gwledydd eraill. Mae amcanestyniadau demograffig yn awgrymu y bydd nifer y bobl sydd ag anableddau dysgu’n cynyddu 14% rhwng 2001 a 2021 (1), â chynnydd ym mhob pen i’r sbectrwm oedran o ganlyniad i well cyfraddau goroesi ar gyfer babanod sy’n cael eu geni’n gynnar a gwelliannau mewn gofal iechyd a safonau byw yn gyffredinol (2,3).

Anghydraddoldebau iechyd

Mae nifer yr unigolion ag anghenion cymhleth, gan gynnwys problemau iechyd eraill sy’n bodoli yr un pryd ac ymddygiadau sy’n cael eu hystyried yn heriol, yn cynyddu yn y DU (4). Mae gan un o bob tri unigolyn sydd ag anabledd dysgu difrifol a dwys hefyd anhwylder cysylltiedig ar y sbectrwm awtistig (5). Mae pobl sydd ag anableddau dysgu yn aml yn cael problemau iechyd a phroblemau cymdeithasol sy’n gysylltiedig â heneiddio yn gynharach na’r boblogaeth gyffredinol ac mae nifer yr achosion o ddementia yn uwch na’r cyfartaledd mewn rhai grwpiau (6).

Mae tystiolaeth ar gael sy’n dangos bod gan bobl sydd ag anableddau dysgu anghenion corfforol, anghenion synhwyrdd ac anghenion iechyd meddwl nad ydynt yn aml iawn yn cael eu cydnabod ac yn cael eu diwallu â gwasanaethau, ac mae hyn yn cael effaith negyddol ar ansawdd eu bywyd, eu siawns mewn bywyd, eu disgwyliad oes a’u profiad o wasanaethau.

Mae tystiolaeth hefyd sy’n dangos bod pobl sydd ag anableddau dysgu yn fwy tueddol o brofi gwahaniaethu ac yn fwy tueddol o golli eu hawliau dynol mewn lleoliadau gofal (7,8).

Gall y problemau hyn olygu bod pobl sydd ag anableddau dysgu yn wynebu mwy o risg o iechyd corfforol a meddyliol gwael a mwy o risg o farwolaeth gynnar. Os nad oes sylw’n cael ei roi i’r problemau hyn, gellir disgwyl y bydd pob gwasanaeth, boed yn wasanaeth arbenigol neu gyffredinol, yn gweld cynnydd yn y galw gan bobl sydd ag anableddau dysgu, eu teuluoedd a’u gofalwyr yn y dyfodol (9).

Newid polisi

Mae cynlluniau moderneiddio gwasanaethau’r pedair gwlad yn debyg o ran cyfeiriad, ond bod y manylion yn wahanol o bosibl. Mae pob un yn ceisio:

- hybu annibyniaeth, cynhwysiant cymdeithasol a dinasyddiaeth;
- datblygu gwasanaeth sydd â’i syniadaeth yn cael ei llywio gan y model cymdeithasol o anabledd a dulliau gweithredu sy’n seiliedig ar werthoedd a hawliau ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn;
- symud yr agenda gwasanaethau integredig yn ei blaen;
- hybu gwasanaethau yn y gymuned; a
- sicrhau mynediad cyfartal teg at ofal iechyd i bobl sydd ag anableddau dysgu, eu teuluoedd a’u gofalwyr.

Cyfeirir at enghreifftiau o bolisiau penodol yn y pedair gwlad yn Atodiad 1.

Y sefyllfa bresennol

Mae nyrsys anableddau dysgu yn dal yn bwysig yng ngolwg rhanddeiliaid

Yn y gorffennol, mae rhywfaint o ddadlau wedi bod ynglŷn â pherthnasedd nyrsio anableddau dysgu yng nghyd-destun y newid i fodel cymdeithasol o ddarpariaeth. Mae gwledydd eraill wedi symud at weithlu â nyrsys cofrestredig sy’n cael eu paratoi’n gyffredinol, neu at hyfforddiant sydd â chysylltiad agosach â gwaith cymdeithasol neu addysg gymdeithasol. Mae’r DU, fodd bynnag, wedi dal i baratoi’n benodol ar gyfer cofrestru fel Nyrs Gofrestredig Anableddau Dysgu ers canrif a mwy. Mae rhai gwledydd erbyn hyn yn ailystyried manteision cael nyrsys sydd wedi cael eu paratoi’n benodol ar gyfer pobl sydd ag anableddau dysgu. Yn fwy diweddar, cafwyd cydnabyddiaeth bod nyrsio anableddau dysgu yn dal i chwarae rhan hollbwysig wrth symud gofal am bobl sydd ag anableddau dysgu o leoliad sefydliadol i gymunedau, wrth hyrwyddo gwella iechyd a gweithio er mwyn mynd i’r afael â’r anghydraddoldebau iechyd a brofir gan y rhai hynny y maent yn gweithio drostynt.

Mae gan nyrsio anableddau dysgu sail gwerthoedd gryf

Mae nyrsys anableddau dysgu’n ymateb i unigolion sydd ag anableddau dysgu, eu teuluoedd a’u gofalwyr mewn ffordd greadigol, hyblyg ac effeithiol, gan sicrhau bod ymyriadau’n cael eu seilio ar yr arferion diweddaraf sy’n seiliedig ar dystiolaeth a gwerthoedd. Mae ganddynt ymrwymiad i ddysgu gydol oes a hybu rhoi grym i bobl sydd ag anableddau dysgu, eu teuluoedd a’u gofalwyr ym mhob agwedd ar ofal.

Mae’r sail gwerthoedd ar gyfer nyrsio anableddau dysgu (gweler Blwch 1) yn gryf a dyma’r elfen allweddol sy’n sail i ymarfer o hyd. Rydym wedi adeiladu ar y sail hon er mwyn datblygu gweledigaeth wedi’i moderneiddio o nyrsio anableddau dysgu ym mhedair gwlad y DU.

Blwch 1

Y sail gwerthoedd ar gyfer nyrsio anableddau dysgu

Mae nyrsio anableddau dysgu’n seiliedig ar werthoedd clir sy’n cynnwys gosod unigolion yn ganolog i’r gofal a sicrhau eu bod yn cael eu cynnwys yn llawn ym mhob agwedd ar gynllunio ac ymyrryd. Mae hefyd yn cydnabod cyfraniad hollbwysig teulu a gofalwyr anffurfiol.^C Mae hyn yn seiliedig ar yr egwyddorion sylfaenol a ganlyn sy’n llywio ymarfer nyrsio anableddau dysgu.

Hawliau dynol Rhoi’r unigolyn yn y canol, gwerthfawrogi dewis, cynhwysiant, dinasyddiaeth a chyfiawnder cymdeithasol. Mae’n cynnwys cydraddoldeb, unigoliaeth, dulliau gweithredu sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy’n seiliedig ar gryfderau, grymuso, hawl pobl i benderfynu drostynt eu hunain, urddas a dileu gormes.

Personoli Cefnogi dewis a rheolaeth yr unigolyn dros ei fywyd a’i wasanaethau ei hun drwy roi grym i bobl sydd ag anableddau dysgu, eu teuluoedd a’u gofalwyr ac ildio “rheolaeth”.

Cydraddoldeb a chynhwysiant Cydnabod amrywiaeth a herio anghydraddoldeb ac annhegwch drwy gynorthwyo pobl sydd ag anableddau dysgu i ddefnyddio’r un gwasanaethau a chael yr un cyfleoedd a hawliau â phawb arall.

Canolbwyntio ar yr unigolyn Ymgysylltu â phobl mewn modd ystyrlon er mwyn nodi amcanion pwysig i’r unigolyn.

Seiliedig ar gryfderau Canolbwyntio ar y cryfderau, sgiliau, talentau ac adnoddau presennol a chynyddu hyfedredd personol.

Parch Gwerthfawrogi’r unigolyn cyflawn a’r bobl amrywiol sy’n ei gefnogi ac yn ei gynnal. Gwerthfawrogi cyfraniad teuluoedd a gofalwyr a, lle bo’n bosibl, gwella cyfraniad eraill.

Partneriaethau Cydnabod bod canlyniadau iechyd a chanlyniadau cymdeithasol yn ddibynnol ar ei gilydd.

Canolbwyntio ar iechyd Canolbwyntio ar iechyd a lles yr unigolyn er mwyn galluogi ffyrdd cynhwysol o fyw.

Rôl bresennol nyrsys anableddau dysgu

Mae nyrsys anableddau dysgu yn gweithio gyda phobl, teuluoedd a gofalwyr sydd ag ystod eang o alluoedd ac anghenion ac mewn gwahanol fathau o leoliadau, gan ddarparu gofal nyrsio cyffredinol ac arbenigol. O ganlyniad, mae arnynt angen ystod eang o sgiliau (gan gynnwys sgiliau “traddodiadol” fel cynllunio gofal a sgiliau “anhraddodiadol” fel cyfathrebu hygyrch)^D ochr yn ochr ag ymyriadau clinigol, ymddygiadol a seicolegol penodol.

Gellir crynhoi rolau canolog nyrsys anableddau dysgu fel a ganlyn:

- nodi a diwallu anghenion iechyd yn effeithiol;
- lleihau anghydraddoldebau iechyd drwy hybu a gweithredu addasiadau rhesymol; a
- hybu gwell canlyniadau iechyd a chynyddu mynediad at wasanaethau iechyd cyffredinol (a dealltwriaeth ohonynt), a thrwy hynny alluogi cynhwysiant cymdeithasol.

Mae ganddynt hefyd ran gynyddol bwysig i’w chwarae drwy helpu i gadw pobl yn ddiogel a thrwy gefnogi’r broses o wneud penderfyniadau ynglŷn â’r gallu i gydsynio a phennaf les. Mae’r cryfderau hyn yn darparu sylfaen gadarn er mwyn datblygu nyrsio anableddau dysgu yn y cyd-destun polisi a demograffig presennol.

Yr Adolygiad o Foderneiddio Nyrsio Anableddau Dysgu yn y DU

Mae nyrsys anableddau dysgu wedi bod ar flaen y gad wrth gyflwyno ac arwain ffyrdd newydd o weithio er mwyn cefnogi diwygio, moderneiddio gwasanaethau ac ailddylunio cynlluniau, ond rhaid i broffesiwn atebol a blaengar ddiogelu ei ddyfodol. Cafodd yr Adolygiad o Foderneiddio Nyrsio Anableddau Dysgu yn y DU ei gomisiynu a’i arwain gan Brif Swyddog Nyrsio’r Alban ar ran prif swyddogion nyrsio eraill y DU. Mae’n adlewyrchu ymrwymiad gan y pedair gwlad i gasglu ac ystyried tystiolaeth am gyfraniad presennol nyrsio anableddau dysgu a’i gyfraniad yn y dyfodol. Elfen greiddiol yr adolygiad yw’r ymrwymiad i gynorthwyo pobl sydd ag anableddau dysgu, eu teuluoedd a’u gofalwyr i gael iechyd da ac i gadw eu hiechyd.^E Nid yw’r adolygiad yn sefyll ar ei ben ei hun. Mae’n rhan o raglen waith ymgynghorol barhaus. (gweler Blwch 2)

Blwch 2

Rhaglen waith ymgynghorol barhaus

Nod y rhaglen yw:

- pennu gwerth nyrsys anableddau dysgu;
- nodi a rhannu arferion da mewn nyrsio anableddau dysgu;
- asesu problemau recriwtio a chadw rhanbarthol;
- blaenoriaethu meysydd ar gyfer datblygu sy’n adlewyrchu modelau gofal a thueddiadau poblogaeth ar gyfer y dyfodol mewn gwasanaethau arbenigol a chyffredinol;
- ystyried pa welliannau y gellir eu gwneud mewn meysydd fel addysg, gyrfaoedd, arweinyddiaeth, ymchwil, dangosyddion canlyniadau, iechyd cyhoeddus a’r gweithlu; a
- nodi’r strategaeth sefydliadol, a’r strategaethau addysg a datblygu a fydd yn cefnogi ac yn galluogi’r proffesiwn nyrsio anableddau dysgu i wireddu ei botensial yn llawn.

Mae pob gwlad wedi cynnwys pobl sydd ag anableddau dysgu, teuluoedd a gofalwyr mewn ffyrdd amrywiol, naill ai fel aelodau o grwpiau llywio neu drwy grwpiau ffocws a chyfarfodydd gyda sefydliadau lleol. Yn ogystal â bod yn gyfrifol am Grŵp Llywio Cydgynhyrchu’r DU ar gyfer pobl sydd ag anableddau, eu teuluoedd a’u gofalwyr, cynhaliodd Consortiwm Anabledd Dysgu’r Alban grwpiau ffocws ar gyfer plant a phobl ifanc a phobl sy’n cael cefnogaeth gan wasanaethau fforensig.

^C Dyma un diffiniad o “ofalwr”: “...someone who looks after a partner, husband or wife, son or daughter, relative or friend with a disability or illness. Many carers live with the person they care for, but many look after someone who lives independently, in supported accommodation, in hospital, or in a care home ... Carers are family members or friends who look after someone without pay or financial reward. They are sometimes known as ‘informal’ carers or more frequently as unpaid carers.” Ffynhonnell: Llywodraeth yr Alban (2011) The Future of Unpaid Care in Scotland: headline report and recommendations [ar-lein]. Ar gael yn: www.scotland.gov.uk/Publications/2006/02/28094157/1

^D Mae cyfathrebu hygyrch yn golygu cynllunio gwybodaeth sy’n haws i bawb ei defnyddio. Gallai hyn olygu cynhyrchu deunydd mewn fformat penodol megis print bras, deunydd clywedol neu ddeunydd hawdd ei ddarllen. (Ffynhonnell: www.romathomas.co.uk/articles/index.php/accessible-communications).

^E Yn yr adroddiad hwn, cymerir bod “iechyd” yn cwmpasu amgylchiadau corfforol, cymdeithasol a seicolegol sy’n galluogi unigolion i gyflawni eu potensial (10). Gan gydnabod y bydd potensial pob unigolyn yn wahanol, rôl nyrsys anableddau dysgu yw cynghori yn erbyn, atal a/neu ddileu rhwystrau sy’n cyfyngu ar y graddau y mae pobl sydd ag anableddau dysgu’n gallu cyflawni eu potensial fel unigolion.

Cefnogwyd yr adolygiad gan reolwr rhaglen cenedlaethol a oedd yn adrodd i Fwrdd Rhaglen y DU, a phedwar grŵp llywio ar gyfer y gwledydd penodol (Atodiad 2).

Roedd prosesau'r adolygiad yn cynnwys adolygiadau o lenyddiaeth, casglu enghreifftiau o ymarfer cadarnhaol ac ymweliadau â lleoliadau ymarfer ac addysg. Cafodd nyrsys eu cynnwys drwy weithdai, cynadleddau a gwybodaeth yn y wasg broffesiynol, a chynhaliwyd grwpiau ffocws ar gyfer myfyrwyr nyrsio. Yn ychwanegol at hyn, cynhaliwyd ymgynghoriad â myfyrwyr nyrsio anabledau dysgu ledled y DU drwy ddau sesiwn yn cael eu hwyluso drwy we-sgwrs Facebook, a chynhaliwyd dau ddigwyddiad ar gyfer pob rhan o'r DU, y naill ar gyfer addysgwyr nyrsio anabledau dysgu a'r llall ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn y sector annibynnol/gwirfoddol.

Bu'r adolygiad hefyd yn gweithio mewn cysylltiad agos â Choleg Brenhinol y Nyrsys er mwyn ymchwilio i ddyheadau a gyrfaedd myfyrwyr a chwblhau gwaith ar ddelwedd a recriwtio.

Trosolwg o'r adroddiad

Mae'r adroddiad hwn yn berthnasol i bawb sy'n cynllunio, datblygu, comisiynu neu gyflenwi gwasanaethau i bobl sydd ag anabledau dysgu, eu teuluoedd a'u gofalwyr. Mae hyn yn cynnwys y rhai hynny sy'n gweithio yn y sector anstatudol, gan gydnabod eu rôl bwysig wrth wella canlyniadau a phrofiadau.^F

Rydym yn cydnabod bod pobl sydd ag anabledau dysgu, eu teuluoedd a'u gofalwyr eisoes yn elwa o ganlyniad i doreth o ddeddfwriaethau a pholisïau blaengar o safbwynt cymdeithasol ym mhob rhan o'r DU, sy'n targedu eu hanghenion mewn meysydd fel iechyd, gofal cymdeithasol, trafnidiaeth, tai a budd-daliadau. Mae'r argymhellion o ganlyniad yn adeiladu ar y cynlluniau cenedlaethol a lleol hyn ac yn eu cefnogi.

Mae fersiwn cwbl hygyrch o'r adroddiad hwn yn cael ei baratoi ar gyfer pobl sydd ag anabledau dysgu, eu teuluoedd a'u gofalwyr.


Mae'r adroddiad wedi'i lunio ar ffurf pedair pennod sy'n seiliedig ar y pedair prif thema a nodwyd yn y crynodeb gweithredol ag adrannau sy'n cysylltu'n uniongyrchol â'r penawdau o *Modernising Nursing Careers* (11). Mae pob pennod yn cynnig disgrifiad byr sy'n amlinellu'r prif faterion ac argymhellion ar gyfer gweithredu. Mae enghreifftiau o ymarfer cadarnhaol a gasglwyd drwy brosesau'r adolygiad i'w gweld drwyddo, ac mae'r adroddiad yn cloi â chasgliad ac adran ar y camau nesaf.

Mae argymhellion yr adroddiad i'w gweld hefyd yn Nhabl 2, lle cynigir rolau chwaraewyr allweddol.

^F Gallai darpariaeth y GIG gynnwys strwythurau/gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol wedi eu hintegreiddio'n rhannol neu yn llawn.

“Rwy’n mynd i’r ysbyty cyn bo hir ond does arna i ddim ofn erbyn hyn, oherwydd bydd [y nyrs cyswllt anableddau dysgu sy’n gweithio yn yr ysbyty] yno i wneud yn siŵr fy mod i’n iawn.”

Person sydd ag anableddau dysgu



Pennod 1

Cryfhau capasiti

“Rwy’n credu bod y nyrsys anableddau dysgu wedi helpu i gefnogi, a sicrhau bod cefnogi pobl sydd ag anableddau dysgu dwys a niferus yn cael ei roi ar yr agenda.”

Uwch weithiwr adnoddau cymunedol

Pennod 1. Cryfhau capasiti

Mae’r bennod hon yn rhoi sylw i rai o’r prif ystyriaethau sy’n sail i’r ymdrechion i gryfhau capasiti drwy ddatblygu’r gweithlu nyrsio anableddau dysgu yng nghyd-destun:

- lleoliad a chyflogaeth
- cynllunio a datblygu gweithlu strategol
- ffyrdd newydd o weithio a rolau newydd
- dewisiadau gyrfaol.

1.1 Lleoliad a chyflogaeth

Lle rydym nawr

Mae nyrsys anableddau dysgu’n gweithio mewn nifer o wahanol leoliadau, gan gynnwys gwasanaethau asesu a thrin, timau cymunedol, y sector annibynnol/gwirfoddol, y system cyfiawnder troseddol a’r sector addysg, gan ddarparu gofal nyrsio cyffredinol ac arbenigol.

Mae newidiadau mewn patrymau darparu gwasanaeth yn golygu nad yw’r rhan fwyaf o nyrsys yn gweithio mewn sefydliadau erbyn hyn. Yn hytrach, maent yn gweithio o fewn modelau cymunedol rhyngddisgyblaethol a rhyngasiantaethol sydd wedi eu gwasgaru’n ddaearyddol. Mae gan rai gysylltiadau cryf â gwasanaethau sylfaenol, eilaidd, iechyd meddwl neu aciwt. Gallant hyd yn oed fod wedi eu lleoli o fewn gwasanaethau o’r fath, er nad yw hyn yn gyffredin.

Mae’r sector annibynnol/gwirfoddol wedi cynyddu ei gyfraniad at gyflenwi gwasanaethau, ac mae wedi dod yn un o’r prif gyflogwyr nyrsys anableddau dysgu, ond mae’r rhan a chwaraeir gan y sector annibynnol/gwirfoddol yn amrywio ym mhob un o wledydd y DU.

Mewn rhai achosion, mae nyrsys anableddau dysgu’n cael eu cyflogi mewn rolau gofalu neu reoli cyffredinol. Gall hyn olygu bod y gwasanaeth yn colli eu sgiliau nyrsio arbenigol a gall roi’r nyrsys hynny sy’n dymuno symud ymlaen o fewn y fframwaith gyrfaol dan anfantais.

Lle rydym eisiau bod

Ac ystyried yr heriau demograffig a pholisi y cyfeiriwyd atynt yn y cyflwyniad, mae dadl gref dros asesu’r gweithlu nyrsio anableddau dysgu sydd ei angen er mwyn diwallu anghenion o fewn gwasanaethau iechyd cyffredinol. Gallai hyn gynnwys nyrsys yn gweithio mewn rolau hwyluswyr iechyd, mewn gwasanaethau iechyd meddwl neu iechyd carchardai neu’n darparu mewnbyn arbenigol ar sail ymgynghorol. Dylai sgiliau a gwybodaeth nyrsio anableddau dysgu gael eu gwerthfawrogi hefyd mewn lleoliadau annibynnol/gwirfoddol.

Mewn amgylchiadau lle mae nyrsys yn cael eu cyflogi mewn rolau gofalu cyffredinol, dylid ystyried sut y gellir gwneud y defnydd gorau o ystod sgiliau ac arbenigedd nyrsio’r unigolyn er mwyn sicrhau canlyniadau iechyd da i bobl sydd ag anableddau dysgu, eu teuluoedd a’u gofalgwyr. Yn ychwanegol at hyn, dylai nyrsys sy’n gweithio y tu allan i’r GIG a’u cyflogwyr ystyried o ddifrif beth yw manteision cynnal eu cofrestriad proffesiynol.

Enghraifft o ymarfer cadarnhaol

Cefnogi ymddygiad cadarnhaol mewn lleoliadau cymunedol

Mae Richmond Fellowship yn yr Alban yn ddarparwr gofal cymdeithasol sy’n cefnogi pobl ym mhob rhan o’r Alban sydd ag anghenion amrywiol, gan gynnwys anableddau dysgu, awtistiaeth, anghenion fforensig ac anawsterau iechyd meddwl.

Sefydlwyd y tîm cefnogi ymddygiad cadarnhaol i gydnabod y ffaith fod llawer o unigolion yn arddangos ymddygiadau sy’n cael eu hystyried yn heriol, a bod ar y sefydliad angen arbenigedd a sgiliau i gefnogi unigolion yn effeithiol a hyfforddi staff yn briodol. Mae’r tîm yn cynnwys rheolwr a chwe chynghorwr cefnogi ymddygiad o wahanol gefndiroedd, ac mae’n cynnwys staff sydd â chefnidir nyrsio anableddau dysgu. Mae’r tîm yn gwneud asesiadau gweithredol ac, yn dilyn hyn, datblygir cynlluniau cefnogi ymddygiad i’r tîm staff lleol eu gweithredu â chefnogaeth. Mae’r gwaith uniongyrchol hwn gyda staff a phobl sydd ag anableddau dysgu’n ffactor allweddol er mwyn gweithredu’r dull yn llwyddiannus.

Mae’r model yn cynnwys strategaethau rhagweithiol ac adweithiol fel addysgu sgiliau newydd, datblygu cyfathrebu, defnyddio strategaethau atgyfnerthu a gwneud addasiadau i’r amgylchedd yn ôl y galw. Gweithredir adolygiad cyfnodol o’r gwasanaeth fel offeryn sicrhau ansawdd parhaus; mae canlyniadau’r adolygiad hwn yn cael eu nodi ar graff ac yn cael eu bwydo yn ôl i dimau staff er mwyn hybu eu hymrwymiad a’u cynnwys. Dangosir canlyniadau i bobl sydd ag anableddau dysgu drwy welliannau mewn ansawdd bywyd a lleihad mewn ymddygiadau sy’n cael eu hystyried yn heriol. Mae newidiadau yn agweddau a dulliau gweithredu staff yn cael eu harfarnu hefyd.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag Anne MacDonald yn amacdonald@trfs.org.uk

Argymhelliad 1

Dylai pedair adran iechyd y DU a’r sector annibynnol/gwirfoddol sefydlu menter gydweithredol genedlaethol er mwyn galluogi gwell dealltwriaeth o weithlu nyrsio anableddau dysgu cofrestredig cynaliadwy o safon uchel, a chynllunio ar ei gyfer, ym mhob sector.

1.2 Cynllunio a datblygu gweithlu strategol

Lle rydym nawr

Mae dros 21 000 o enwau ar gofrestr nyrsio anableddau dysgu’r DU (gweler Tabl 1). Nid yw’r rhain i gyd mewn gwaith ar hyn o bryd.

Tabl 1

Nyrsys anableddau dysgu ar gofrestr y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, 2011		
Gwlad	Cyfanswm y nyrsys cofrestredig	Nifer y nyrsys anableddau dysgu cofrestredig
Lloegr	533 205	17 458
Yr Alban	66 750	1913
Cymru	33 416	1030
Gogledd Iwerddon	22 564	722
Cyfanswm	655 935	21 123

Ffynhonnell: Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

Mae'r nifer sy'n cofrestru o'r newydd wedi lleihau'n raddol yn ystod y 10 mlynedd diwethaf, ac mae'r nifer sy'n cael eu cyflogi gan y GIG wedi gostwng hefyd. O ganlyniad, mae cwestiynau wedi codi ynglŷn â hyfywedd rhai rhaglenni addysg cyn cofrestru yn y DU.

Fel rhan o'r adolygiad, rydym wedi ceisio canfod ym mhle y mae'r nyrsys cofrestredig hyn yn gweithio, ond mae hyn wedi bod yn anodd, hyd yn oed o fewn y GIG. Gellid priodoli hyn i lawer o ffactorau, gan gynnwys y ffaith fod nyrsys anableddau dysgu yn symud i weithio yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol ehangach. O ganlyniad, nid ydym yn gallu cynllunio'n effeithiol ar gyfer y dyfodol.

Mae'n werth nodi hefyd bod y gweithlu nyrsio anableddau dysgu presennol yn mynd yn hŷn, a gallai hyn arwain at fwllch mawr yn y gweithlu wrth i nyrsys profiadol ymddeol neu adael y proffesiwn.

Lle rydym eisiau bod

Mae angen rhagor o waith i gasglu data cywir ynglŷn â maint, sefyllfa a lleoliad y gweithlu presennol er mwyn cynllunio'n effeithiol ar gyfer y dyfodol a monitro cynnydd â'r gwaith o foderneiddio nyrsio anableddau dysgu. Mae angen systemau ym mhob gwlad fel bod modd gwneud asesiadau dibynadwy a soffistigedig o ofynion y gweithlu a galluogi ymatebion priodol, megis lefelau priodol o ddarpariaeth addysg â chymariaethau ledled y DU. Rhaid gwneud hyn mewn partneriaeth, gan gynnwys y sectorau statudol ac annibynnol/gwirfoddol er mwyn sicrhau dealltwriaeth gliriach o ofynion y gweithlu yn y dyfodol yn yr holl sectorau a hybu cydweithrediad ac integreiddiad.

Bydd cynllunio effeithiol a datblygu patrymau gweithio hyblyg yn helpu i sicrhau bod profiad gwerthfawr yn cael ei gadw yn y gweithlu.

Argymhelliad 2

Mae angen systemau i gasglu data am y gweithlu ym mhob gwlad, â chysylltiadau ar draws y DU, er mwyn cynllunio gweithlu i ddarparu nyrsio anableddau dysgu yn y dyfodol. Dylai'r rhain allu cadw gwybodaeth am ddarparu gwasanaeth, gofynion addysgol ac ymchwil a dylent ymdrin â'r sector annibynnol/gwirfoddol.

1.3 Ffyrdd newydd o weithio a rolau newydd

Lle rydym nawr

Mae nyrsys anableddau dysgu'n cael eu gwerthfawrogi'n fawr gan bobl sydd ag anableddau dysgu, eu teuluoedd a'u gofalwyr. Tosturi, parch a gwerthoedd ac agweddau sy'n seiliedig ar hawliau dynol yw'r sgiliau craidd y mae pobl sydd ag anableddau dysgu, eu teuluoedd a'u gofalwyr yn edrych amdanynt mewn nyrsys anableddau dysgu ac ym mhob gweithiwr iechyd proffesiynol. Maent wedi dweud wrthym drwy gydol yr adolygiad ein bod yn gwneud yn dda yn y meysydd a ganlyn:

- annog grymuso a chyfranogiad;
- hybu sgiliau cyfathrebu, gan gynnwys cyfathrebu hygyrch;
- gwneud archwiliadau iechyd, cefnogi mynediad i ysbyty neu ofal sylfaenol, helpu ag ymddygiad ac addysgu pobl ynglŷn ag iechyd;
- helpu pobl i gadw'n iach a byw yn y gymuned;
- cefnogi mynediad at ofal iechyd cyffredinol (mae rolau cyswllt yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr);
- codi ymwybyddiaeth o anableddau dysgu drwy addysg a hyfforddiant i bob gweithiwr iechyd proffesiynol.

Fodd bynnag, dywedasant wrthym hefyd fod angen i ni wneud yn well mewn nifer o feysydd. Mae'r rhain yn cael eu hadlewyrchu yn ein hargymhellion ac maent yn cynnwys y canlynol.

- Nid yw rhai pobl sydd ag anableddau dysgu yn cael profiadau da mewn gwasanaethau asesu a thrin arbenigol. Mae angen i nyrsys anableddau dysgu gynnwys pobl fwy yn eu hasesiad a'u triniaeth yn y lleoliadau hyn ac osgoi arferion cyfyngol (yn gysylltiedig ag Argymhelliad 8).
- Plant ag anghenion cymhleth iawn sy'n cael eu cau allan o addysg – gallai nyrsys anableddau dysgu gynorthwyo gwasanaethau i reoli hyn yn well (yn gysylltiedig ag Argymhelliad 6).
- Mae cysondeb yn bwysig: lle bo modd, mae'n well gan bobl gael yr un nyrs/nyrs enwebedig (yn gysylltiedig ag Argymhelliad 5).
- Dylai gweithwyr sydd heb eu cofrestru gael hyfforddiant mwy trylwyr mewn anableddau dysgu (yn gysylltiedig ag Argymhelliad 13).

Lle rydym eisiau bod

Er mwyn symud ymlaen, mae pobl ag anableddau dysgu, eu teuluoedd a'u gofalwyr wedi dweud wrthym y dylem ddal i wneud y pethau rydym yn eu gwneud nawr, ond lleihau'r amrywiadau y maent yn eu profi, a dechrau ymestyn y rôl yn y meysydd a ganlyn.

- Mae cefnogi trosglwyddo o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion yn dal i fod yn broblemus a byddai gofalwyr yn gwerthfawrogi mwy o gysylltiad â nyrsys anableddau dysgu (yn gysylltiedig ag Argymhelliad 6).
- Gallai nyrsys anableddau dysgu ddatblygu eu rôl o amgylch cynllunio ar gyfer rhyddhau (yn gysylltiedig ag Argymhelliad 7).
- Mae angen i nyrsys anableddau dysgu gymryd amser i ddod i adnabod pobl, datblygu ymddiriedaeth a chydabod mai'r unigolyn yw'r arbenigwr (yn gysylltiedig ag Argymhelliad 5).
- Byddai pobl sydd ag anableddau dysgu, eu teuluoedd a'u gofalwyr yn hoffi ymwneud mwy â'r broses o ddewis nyrsys anableddau dysgu, gan gynnwys myfyrwyr a'r gweithlu sydd heb eu cofrestru (yn gysylltiedig ag argymhellion 5 ac 11).
- Gallai pobl sydd ag anableddau dysgu, eu teuluoedd a'u gofalwyr ymwneud mwy ag addysg nyrsys ym mhob maes nyrsio. Mae ar nyrsys eraill angen mwy o wybodaeth a sgiliau o hyd er mwyn gweithio gyda phobl sydd ag anableddau dysgu (yn gysylltiedig ag Argymhelliad 11).
- Gallai nyrsys ehangu eu rôl i feysydd eraill, fel iechyd meddwl a charchardai (yn gysylltiedig ag Argymhelliad 4).

Dylid datblygu'r potensial i nyrsys anableddau dysgu ymgymryd â rolau newydd, datblygedig ac estynedig yn unol â datblygiadau mewn meysydd nyrsio eraill. Byddai tystiolaeth a gasglwyd drwy gydol yr adolygiad yn cefnogi rhoi sylw penodol i ddatblygu hyfedredd ym meysydd rhagnodi anfeddygol, therapiau seicolegol, teleiechyd a rolau newydd sy'n cefnogi plant a theuluoedd (gweler Pennod 2) a phobl sydd ag anableddau dysgu yn y system cyfiawnder troseddol. Rhoddir ystyriaeth fanylach i rai o'r rhain isod.

Y system cyfiawnder troseddol

Mae cyfran uchel o bobl sydd ag anableddau dysgu (7%, o gymharu â 2.5% yn y boblogaeth brif ffrwd (12)) yn mynd drwy'r system cyfiawnder troseddol fel dioddefwyr neu gyflawnwyr trosedd, yn nalfa'r heddlu neu mewn llysoedd a charchardai. Mae'n hanfodol sicrhau bod digon o nyrsys anableddau dysgu'n gweithio yn y gwasanaethau hyn, ac yn defnyddio'u sgiliau arbenigol i asesu, cynllunio, dargyfeirio (lle bo'n briodol) a chysylltu â gwahanol asiantaethau mewn lleoliadau gwarchod ac ar ôl rhyddhau.

Rhagnodi anfeddygol

Mae rhagnodi anfeddygol yn cynnig cyfle i wella mynediad at feddyginiaeth a lleihau amseroedd aros ac mae'n cael ei ystyried yn gadarnhaol gan bobl sydd wedi cael profiad ohono fel rhan o'u gofal (13). Dylid archwilio'r posibilrwydd o ehangu rolau drwy gyfrwng rhagnodi anfeddygol ar gyfer nyrsys anableddau dysgu, yn enwedig yng nghyswllt epilepsi a gofal iechyd meddwl.

Enghraifft o ymarfer cadarnhaol

Rhagnodi anfeddygol

Mae nyrs epilepsi arbenigol yng Ngogledd Iwerddon yn dangos i bobl sydd ag anableddau dysgu beth yw manteision dilyn cwrs rhagnodi anfeddygol i bobl sydd ag anableddau dysgu.

Mae rôl y nyrs epilepsi arbenigol yn amrywiol gan ei bod yn cynnwys rheolaeth glinigol, addysg a hyfforddiant, a datblygu ymarfer. Gwelodd deiliad y swydd gyfleoedd i roi cyngor i bobl sydd ag anableddau dysgu, eu teuluoedd a'u gofawyr ynglŷn â newidiadau i'w meddyginiaeth, yn hytrach na gadael iddynt aros am y clinigydd meddygol, fel bod modd sefydlu trefniadau triniaeth effeithiol a chyflym a lleihau risgiau drwy atal ffitiau a/neu effeithiau andwyol.

O ganlyniad, aeth y nyrs ati i ddatblygu ei gwybodaeth a'i sgiliau i gefnogi hyfedredd mewn rhagnodi a thitradu cyffuriau gwrth-epileptig a'i dealltwriaeth o nodweddion a rhyngweithiadau ffarmacocinetig. Llwyddodd i gwblhau'r cwrs rhagnodi anfeddygol a chytunwyd ar lwybr rhagnodi nyrs epilepsi yn y gwasanaeth.

Erbyn hyn mae mewn sefyllfa i roi cyngor i bobl sydd ag anableddau dysgu, eu teuluoedd a'u gofawyr ynglŷn â newidiadau mewn meddyginiaeth yn gyflym, ar sail angen a aseswyd. Fel sy'n digwydd gyda'r ymgynghorydd meddygol sy'n adolygu epilepsi'r cleient mewn clinigau cleifion allanol, bydd yn argymhell newidiadau mewn meddyginiaeth i feddyg teulu'r cleient, fel bod modd diweddarw cofnod electronig yr unigolyn a darparu'r feddyginiaeth angenrheidiol ar gyfer yr hirdymor. Mae hefyd yn darparu gwybodaeth arbenigol ynglŷn ag epilepsi mewn pobl sydd ag anableddau dysgu i gefnogi meddygon teulu.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag Edna O'Neill yn edna.o'neill@setrust.hscni.net

Therapiau seicolegol

Mae sail dystiolaeth gynyddol ynglŷn â therapïau seicolegol a'u manteision i bobl sydd ag anableddau dysgu'n cefnogi datblygiad sgiliau perthnasol gan nyrsys anableddau dysgu (14,15). Anogir nyrsys i gynnal ac ymarfer ymyriadau seicolegol, â chymorth goruchwyliaeth effeithiol. Yr ethos y tu ôl i'r broses hon yw galluogi nyrsys i weithredu yn unol â fframwaith gofal grisiog, gan sicrhau bod asesiad yn cael ei wneud a thriniaeth yn cael ei rhoi cyn gynted ag y bo modd a chysylltu â rhannau eraill o'r system ofal er mwyn lleihau derbyniadau i ysbytai.

Teleiechyd

Gallai'r defnydd cynyddol o deleiechyd a thelefonitro ledled y DU hybu'r agenda bersonoli, sy'n seiliedig ar gryfderau ac yn canolbwyntio ar asedau ar gyfer pobl sydd ag anableddau dysgu, eu teuluoedd a'u gofawyr. Mae angen i nyrsys anableddau dysgu archwilio'r potensial hwn yn y systemau y maent yn gweithio ynddynt.

Argymhelliad 3

Dylid ystyried datblygu cyfleoedd rôl newydd, arbenigol a datblygedig yng ngoleuni cynllunio gweithlu, datblygu gwasanaeth a darpariaeth addysgol. Yn fwyaf arbennig, dylai hyn ganolbwyntio ar rolau rhagnodi anfeddygol, therapïau seicolegol a theleiechyd a rolau mewn sefyllfaoedd penodol fel y system cyfiawnder troseddol, gwasanaethau iechyd meddwl (yn enwedig dementia) a gwasanaethau awtistiaeth.

1.4 Dewisiadau gyrfaol

Lle rydym nawr

Mae ystod y cyfleoedd statudol ac anstatudol, ynghyd ag integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, yn golygu nad yw dewisiadau gyrfaol yn glir bob amser a gall dewisiadau gyrfaol fod yn gyfyngedig oherwydd diffyg gallu i drosglwyddo rhwng sectorau a chyflogwyr.

Lle rydym eisiau bod

Dylai llwybrau gyrfaol a chyfleoedd i gamu ymlaen fod yn glir ar draws yr holl wasanaethau a lleoliadau er mwyn i nyrsys anableddau dysgu allu cynllunio eu datblygiad gyrfaol. Cyflwynodd *Modernising Nursing Careers* (11) y cysyniad o gynllunio gyrfaol strwythuredig ar gyfer nyrsys er mwyn eu galluogi i ddatblygu gwybodaeth a sgiliau yn eu rolau presennol a fyddai hefyd yn caniatáu iddynt gamu ymlaen i rolau uwch. Mae llawer o gynlluniau sy'n ymwneud â gwahanol lefelau o fframwaith gyrfaedd y GIG wedi cael eu datblygu ledled y DU yn dilyn hynny.

Dylai elfennau addysg a hyfforddiant ar bob lefel o fframwaith gyrfaedd y GIG gael eu datblygu ymhellach er mwyn amlinellu'r wybodaeth, y sgiliau, yr agweddau a'r gwerthoedd sydd eu hangen gan y gweithlu nyrsio anableddau dysgu, gan gynnwys y rhai hynny mewn rolau nyrsys practis arbenigol a nyrsys ymgynghorol. Byddai hyn yn golygu bod modd cynllunio addysg er mwyn diwallu anghenion datblygu'r gweithlu, diwallu anghenion pobl sydd ag anableddau dysgu, eu teuluoedd a'u gofawyr yn well, a gweithredu fel sylfaen i ddarparu gwybodaeth ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol mewn addysg nyrsio anableddau dysgu ôl-gofrestru, ymchwil a gweithgaredd ysgolheigaidd. Gellid defnyddio'r datblygiadau hyn ar draws sectorau (ar ôl eu haddasu'n briodol) i roi fframwaith gyrfaol cydlynol.

Enghraifft o ymarfer cadarnhaol

Cefnogi addasiadau rhesymol

Mae Jim Blair yn gweithio fel nyrs ymgynghorol ac uwch ddarlithydd, a'i gylch gwaith yw arwain y broses o ddarparu a datblygu ymarfer effeithiol o safbwynt clinigol, sy'n ddiogel, yn gyfreithlon ac yn briodol mewn gwasanaethau aciwt i bobl sydd ag anableddau dysgu. Mae'r enghreifftiau isod yn dangos sut y mae'r nyrs ymgynghorol wedi gallu hybu addasiadau rhesymol mewn ysbytai er mwyn gwella'r gofal a'r driniaeth a roddir i bobl sydd ag anableddau dysgu.

Katherine – Mae gan Katherine anableddau dysgu difrifol ac yn ôl ei phasbort* mae ganddi alergedd i wyau. Ar ôl darllen hyn, ffoniodd prif nyrs y ward gartref Katherine i gael gwybod yn iawn a oedd yn cael adweithiau anaffylactig ynteu frech. Mater o ragofalu oedd hyn, yn hytrach nag ymateb i rywbeth oedd wedi digwydd.

Vivek - Roedd y geiriau canlynol ar basbort Vivek - “bubbles up liquids and regurgitates food”. Sylwodd meddyg ar hyn a gwyddai y gallai hyn fod yn arwydd o ddysffagia, sy'n gallu achosi i rywun dagu ar ei fwyd. Mae dysffagia yn fwy cyffredin ymhlith pobl sydd ag anableddau dysgu, felly mae'n bwysig iawn edrych am arwyddion, fel yn achos Vivek, a nodi'n fuan sut y mae sicrhau ei fod yn cael cymaint o faeth ag sy'n bosibl.

Heb basbortau ysbyty, byddai'n hawdd methu problemau difrifol neu beidio â'u trin. Roedd modd i glinigwyr yn Ysbyty St George yn Llundain weithredu ar sail y wybodaeth yn y pasbortau a thynnu sylw eu cydweithwyr at y problemau, gan arwain at ofal a thriniaeth effeithiol i'r ddau unigolyn.

Addasiadau rhesymol creiddiol yn Ysbyty St George

Mae'r canlynol yn safonol ar gyfer pobl sydd ag anableddau dysgu, eu teuluoedd a'u gofalwyr yn Ysbyty St George er mwyn helpu i leihau pryder, caniatáu i arbenigwyr (fel teulu) ddarparu cefnogaeth emosiynol ac eiriolaeth, a galluogi gweithwyr proffesiynol i roi triniaeth effeithlon a buan.

- Y polisi cyffredinol yw dim amseroedd ymweld penodedig ar gyfer teulu, gofalwyr a ffrindiau pobl sydd ag anableddau dysgu, felly gallant fod gyda hwy am faint bynnag o amser y maent yn dymuno.
- Cynigir bwyd a diod i deulu a gofalwyr er mwyn sicrhau y gallant fod gyda'r unigolyn y maent yn ei gefnogi ar unrhyw adeg.
- Dylid cynnig apwyntiad cyntaf neu olaf y diwrnod bob amser, fel nad yw pobl sy'n teimlo bod aros yn brofiad trawmatig yn gorfod aros.
- Mae apwyntiadau dwbl yn ddefnyddiol oherwydd maent yn caniatáu asesiad llawnach o anghenion pobl, sy'n debygol o arwain at driniaeth a chanlyniadau mwy effeithiol.
- Darperir gwely a/neu gadair i aelod o'r teulu neu ofalwr.

Er mwyn i ofal a thriniaeth fod yn deg, mae angen gwneud addasiadau fel bod modd gwella profiadau gofal iechyd a chanlyniadau pobl sydd ag anableddau dysgu yn yr ysbyty. Un enghraifft o addasiadau rhesymol yn Ysbyty St George yw achos Trevor, gŵr oedd â'r gallu i gydsynio i gael dialysis ond a fyddai'n tynnu'r tiwbiau ar ôl 30 munud gan na allai ddweud faint o amser roedd y driniaeth wedi ei gymryd a gan fod arno eisiau mynd adref. Yr addasiad rhesymol yn ei achos ef oedd darparu cynorthwydd gofal iechyd i fod gydag ef drwy gydol y driniaeth bedair awr i siarad gydag ef a'i annog i gwblhau'r dialysis. Ar ôl ychydig o amser, nid oedd angen cael rhywun gydag ef, ac erbyn hyn mae'n cael dialysis ar ei ben ei hun.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Jim Blair yn jim.blair@stgeorges.nhs.uk

*Mae pasbort ysbyty yn ganllaw i iechyd a lles yr unigolyn. Mae'n cael ei baratoi cyn yr ymweliad â'r ysbyty er mwyn i staff yr ysbyty gael cofnod cywir o wybodaeth bwysig sy'n ymwneud ag iechyd a hanes meddygol yr unigolyn (ffynhonnell: www.sabp.nhs.uk/services/ld).

Argymhelliad 4

Dylai pob un o'r pedair gwlad ystyried cysoni eu fframweithiau gyrfaol ôl-gofrestru presennol ar gyfer nyrsio anableddau dysgu er mwyn nodi'n glir pa wybodaeth a sgiliau sydd eu hangen ar nyrsys anableddau dysgu ar bob lefel ac ym mhob lleoliad. Gellid defnyddio'r datblygiadau hyn ar draws sectorau (ag addasiad priodol) i roi fframwaith gyrfaol cydlynol.



“Mae nyrsio anableddau dysgu’n hanfodol er mwyn sicrhau bod pobl sydd ag anableddau dysgu a’u gofalwyr yn cael mynediad at ofal iechyd cyffredinol yn yr un ffordd â chi a fi. Maen nhw’n helpu pobl i ganfod eu ffordd o gwmpas system y GIG er mwyn sicrhau bod pobl sydd ag anableddau dysgu, eu teuluoedd a’u gofalwyr yn cael y canlyniadau iechyd a’r gefnogaeth orau posibl. Maent hefyd yn cynorthwyo gweithwyr iechyd proffesiynol eraill i addasu eu modelau darparu gofal ar gyfer anghenion y cleient ac yn sicrhau bod modd darparu gofal sy’n canolbwyntio o ddifri ar yr unigolyn.”

Dirprwy gyfarwyddwr nyrsio, ysbyty cyffredinol

Pennod 2

Cryfhau gallu

Pennod 2. Cryfhau gallu

Mae’r bennod hon yn amlinellu ystyriaethau pwysig sy’n sail i ymdrechion i sicrhau gweithlu nyrsio anableddau dysgu cymwys a hyblyg ar gyfer y dyfodol drwy:

- gynyddu cyfraniad nyrsio anableddau dysgu
- gweithio gyda phobl o bob oed
- rhoi sylw i anghenion iechyd
- darparu gwasanaethau arbenigol.

2.1 Cynyddu cyfraniad nyrsio anableddau dysgu

Lle rydym nawr

Mae Coleg Brenhinol y Nyrsys (16) yn diffinio nyrsio fel a ganlyn:

“The use of clinical judgement in the provision of care to enable people to improve, maintain, or recover health, to cope with health problems and to achieve the best possible quality of life whatever their disease or disability, until death.”

Nyrsys anableddau dysgu yw’r unig grŵp proffesiynol sy’n cael ei baratoi’n benodol i weithio gyda phobl sydd ag anableddau dysgu. Mae’r paratoad hwn, sy’n cael ei ddarparu ar hyn o bryd ar lefel gradd, ynghyd â’r sgiliau bioseicogymdeithasol, yr hyfedredd a’r wybodaeth eang y maent yn ei datblygu, yn eu gwneud yn rhan unigryw a hollbwysig o’r broses o ddarparu gwasanaethau cynhwysfawr.

Yn rhy aml o’r hanner yn yr adolygiad hwn cafwyd enghreifftiau o ddiffyg defnydd o nyrsio anableddau dysgu. O gofio cyn lleied o nyrsys anableddau dysgu cofrestredig sydd yn y DU, a’r heriau sy’n wynebu’r gweithlu, mae’n hanfodol bod y defnydd gorau’n cael ei wneud o’u harbenigedd er mwyn y bobl y maent yn eu gwasanaethu.

Lle rydym eisiau bod

Un o’r gofynion canolog ar gyfer yr agenda drawsnewid yn y pedair gwlad ac ym mhob sefydliad yw’r angen i dargedu sgiliau, gwybodaeth a chymwyseddau nyrsys anableddau dysgu tuag at y bobl iawn, yn y lleoedd iawn ac ar yr adegau iawn.

Enghraifft o ymarfer cadarnhaol:

Clinigau rhagnodi yn cael eu harwain gan nyrsys – model cymunedol i bobl sydd ag anableddau dysgu ac epilepsi

Mae nyrs anableddau dysgu cymunedol yn Swydd Gaerloyw wedi datblygu gwasanaeth sy’n cael ei arwain gan nyrsys er mwyn gwella gofal epilepsi i bobl sydd ag anableddau dysgu, gan leihau’r risg o farwolaeth annisgwyl sydyn mewn epilepsi.

Mae apwyntiadau rheolaidd, gweithio mewn partneriaeth a hyfforddiant wedi arwain at well cofnodi a chydgordio meddyginiaeth. Mae hyn wedi golygu bod nyrsys yn gallu rhagnodi’n effeithiol, ar sail tystiolaeth, er mwyn rhesymoli meddyginiaeth pobl. Mae addasiadau rhesymol wedi cael eu gwneud hefyd drwy gryfhau cysylltiadau a darparu data perthnasol i gefnogi mynediad at wasanaethau cyffredinol.

Mae’r canlyniadau iechyd yn cynnwys:

- lleihad o 75% yn nifer y ffitiau;
- 33 o bobl ar y llwybr gofal epilepsi â llinell amser hanes a meddyginiaeth;
- 9 o bobl wedi cael sgan dwysedd esgyrn, a 7 o anhwylderau esgyrn wedi cael eu nodi (2 ganlyniad i ddod);
- 5 merch ar feddyginiaeth valproate hirdymor wedi cael sganiau uwchsaïn, a 4 cyflwr yn ymwneud ag ofariau wedi cael eu nodi (1 canlyniad i ddod); a
- 544 awr o hyfforddiant epilepsi wedi cael eu darparu i ofalwyr, gan alluogi pobl i reoli eu cyflwr.

Mae’r canlynol wedi cael eu gweithredu er mwyn lleihau’r risg o farwolaeth annisgwyl sydyn mewn epilepsi:

- 17 monitor epilepsi wrth y gwely yn y nos
- cynlluniau rheoli risg
- protocolau ar gyfer pob unigolyn sy’n cael meddyginiaeth achub ar bresgripsiwn.

Mae arbedion wedi eu gwneud hefyd yng nghyd-destun ansawdd, arloesedd, cynhyrchiant ac atal, gan gynnwys:

- lleihau nifer y derbyniadau heb eu trefnu i ysbytai a’r galwadau brys drwy well trefniadau rheoli ffitiau, cynlluniau rheoli risg ac atal toriadau;
- lleihau costau tanwydd a theithio i ategu polisi gwyrdd y sefydliad;
- gwelliannau mewn hyfforddiant, mynychu apwyntiadau, monitro a chydgordio meddyginiaeth, a rhesymoli therapi;
- canlyniadau archwiliadwy gan ddefnyddio offeryn anabledd dysgu y Sefydliad Cenedlaethol dros lechyd a Rhagoriaeth Glinigol (NICE) sydd wedi ei addasu ar gyfer epilepsi;
- lleihau y nifer “heb ddod” i ymgynghoriad (13 o 412 o ymgynghoriadau);
- y nyrs yn cael hyd at 83 o gysylltiadau misol da (gweithio 22.5 awr yr wythnos).

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Penny Shewell yn penny.shewell@glos.nhs.uk

Argymhelliad 5

Dylai comisiynwyr a chynllunwyr gwasanaeth gael gweledigaeth glir ar gyfer y ffordd y maent yn sicrhau bod gwybodaeth a sgiliau nyrsys anableddau dysgu’n cael eu darparu i’r bobl iawn, yn y lleoedd iawn, ac ar yr adeg iawn mewn ffordd sy’n adlewyrchu canolbwynt seiliedig ar werthoedd a hawliau gwaith nyrsys anableddau dysgu.

2.2 Gweithio gyda phobl o bob oed

Lle rydym nawr

Mae nyrsys anableddau dysgu eisoes yn gwneud cyfraniad pwysig i’r gwaith o ddarparu gwasanaeth nyrsio o safon drwy gydol oes. Mae hyn yn cynnwys cyswllt ac ymyriadau ar gyfer babanod a phlant, yn ystod blynyddoedd ysgol, wrth drosglwyddo i fywyd oedolyn, a thrwy gydol y cyfnod fel oedolyn ac, yn gynyddol, yn y blynyddoedd diweddarach hyd ddiwedd oes. Rhaid i sgiliau a chymwyseddau nyrsys anableddau dysgu fod ar gael yn ystod y cyfnodau pwysig hyn mewn bywyd.

Lle rydym eisiau bod

Blynyddoedd cynnar

Dylai nyrsys anableddau dysgu roi sylw penodol ac ymwybodol i’r gwaith o sicrhau bod anghenion iechyd plant a phobl ifanc ag anableddau dysgu yn cael sylw a blaenoriaeth briodol. Rhaid gwneud y gorau o sgiliau, gwybodaeth ac arbenigedd nyrsys anableddau dysgu er mwyn sicrhau gwasanaethau ac ymyriadau o safon uchel i blant sydd ag anableddau dysgu a’u teuluoedd (17). Ni fydd ar bob plentyn sydd ag anableddau dysgu angen cefnogaeth gan nyrsys anableddau dysgu, ac mae’n hanfodol bod y newid tuag at wella mynediad at wasanaethau iechyd cyffredinol i blant yn parhau. Er hyn, mae nyrsys anableddau dysgu’n meddu ar wybodaeth a chymwyseddau penodol a all ddod â gwerth ychwanegol, yn enwedig i’r rhai hynny sydd â’r anghenion cymhlethaf, a rhaid iddynt fod yn rhan ganolog o wasanaethau sy’n darparu gofal i’r boblogaeth hon mewn meysydd fel datblygu sgiliau, iechyd meddwl a lles emosiynol, rheoli ymddygiad, anghenion iechyd corfforol cymhleth ac ymyriadau a chefnogaeth sy’n canolbwyntio ar y teulu.

Pobl hŷn

Rhaid i nyrsys anableddau dysgu fod yn barod ar gyfer y cynnydd parhaus yn nifer y bobl hŷn sydd ag anableddau dysgu. Mae’r unigolion hyn mewn perygl o gael nifer o gyflyrau iechyd corfforol a meddyliol a gallent fod yn defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal ac asiantaethau cysylltiedig yn aml. Yn ychwanegol at hyn, gallai rhai pobl sydd ag anableddau dysgu fod mewn perygl o gael cyflyrau amrywiol sy’n debyg i’r rhai a brofir gan bobl hŷn (fel dementia), ond eu bod yn rhy ifanc i gael mynediad at wasanaethau gofal cyffredinol i bobl hŷn.

Enghraifft o ymarfer cadarnhaol:

Cefnogi rhieni sydd ag anableddau dysgu – ffyrdd newydd o weithio

Mae’r gwasanaeth rhianta arbennig yng Nghernyw’n darparu asesiad o sgiliau rhianta pobl ag anableddau dysgu sy’n disgwyl babi. Nodir meysydd lle mae angen cefnogaeth neu addysgu yn dilyn asesiad o wybodaeth am bob agwedd ar rianta. Mae’r gwasanaeth hefyd yn darparu cefnogaeth, cyngor a gwasanaeth ymgynghori i asiantaethau statudol, bydwagedd ac ymwelwyr iechyd. Yn dilyn yr enedigaeth, mae’r nyrsys yn gweithio gyda’r holl asiantaethau perthnasol er mwyn sicrhau bod rhieni’n gallu magu’r plentyn yn “ddigon da”, sicrhau nad oes problemau sy’n ymwneud â diogelu’n codi a darparu cefnogaeth ddilynol i rieni ar gyfnodau datblygu allweddol a nodwyd. Defnyddir y llawlyfr asesu rhieni fel offeryn asesu cychwynnol: cynlluniwyd y llawlyfr hwn er mwyn asesu gallu rhianta’r rhai hynny sydd â mân anableddau dysgu. Yn dilyn yr asesiad, gall ymyriadau gynnwys therapi sy’n canolbwyntio ar atebion, therapi cyfarwyddyd rhyngweithio fideo, therapi teulu ac addysgu sgiliau. Mae’r canlyniadau’n cynnwys y canlynol:

- galluogi cleientiaid i feithrin y wybodaeth a’r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer rhianta llwyddiannus
- cynyddu hyder a hunan-barch
- sicrhau ymlyniad da
- lleihau pryder aelodau o’r teulu ynglŷn â gallu’r rhieni i lwyddo
- rhoi’r grym i rieni deimlo’n hyderus ynglŷn â chael mynediad at wasanaethau cyffredinol
- lleihau nifer yr achosion sy’n cael eu cyfeirio i sylw gofal cymdeithasol plant oherwydd materion yn ymwneud â diogelu.

Y camau nesaf ar gyfer y gwasanaeth yw:

- gweithio ar y cyd â gwasanaethau cyffredinol, bydwagedd ac ymwelwyr iechyd er mwyn hybu atgyfeiriad cynnar ar gyfer rhianta arbennig;
- casglu tystiolaeth o’r prosiect ymyriadau cynnar er mwyn nodi effeithiolrwydd yr ymyriadau presennol; a
- bod yn ymwybodol o’r arferion presennol sy’n seiliedig ar dystiolaeth a chanllawiau arferion gorau er mwyn sicrhau bod safonau’n cael eu cadw ar y lefel uchaf.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Jan Line yn jan.line@cft.cornwall.nhs.uk a Paul Thomas yn paul.thomas@cft.cornwall.nhs.uk

Argymhelliad 6

Dylai comisiynwyr a darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol sicrhau bod sgiliau, gwybodaeth ac arbenigedd nyrsys anableddau dysgu ar gael drwy’r rhychwant oes. Dylid galluogi hyn drwy gydweithio effeithiol ar draws strwythurau iechyd a gofal cymdeithasol.

2.3 Rhoi sylw i anghenion iechyd

Lle rydym nawr

Mae tystiolaeth gryf fod gan bobl sydd ag anableddau dysgu iechyd corfforol a meddyliol gwaelach a mwy o anghenion iechyd (gan gynnwys anghenion sy’n gysylltiedig ag anawsterau ymddygiad) na’r boblogaeth gyffredinol. Yn ychwanegol at hyn, mae llawer yn cael anhawster i gael mynediad at wasanaethau iechyd cyffredinol ac i’w defnyddio. Mae gan nyrsys anableddau dysgu arbenigedd mewn hwyluso a chefnogi mynediad at wasanaethau gofal iechyd cyffredinol.

Mae safonau’r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ar gyfer addysg nyrsio cyn cofrestru (18) yn adlewyrchu rôl iechyd a swyddogaeth nyrsys anableddau dysgu, gan ddweud:

“Learning disabilities nurses must have an enhanced knowledge of the health and developmental needs of all people with learning disabilities, and the factors that might influence them. They must aim to improve and maintain their health and independence through skilled direct and indirect nursing care. They must also be able to provide direct care to meet the essential and complex physical and mental health needs of people with learning disabilities.”

Mae cyfraniad nyrsio anableddau dysgu wrth fynd i’r afael ag anghenion iechyd yn y model cymdeithasol o anabledd wedi achosi rhywfaint o ddryswch. Mae’n bwysig bod nyrsys a gwasanaethau anableddau dysgu’n cydnabod bod iechyd gwael (yn ei gyd-destun ehangaf) yn cyfyngu ar allu pobl i gymryd rhan yn eu cymdeithas.

Lle rydym eisiau bod

Yn ôl y Rhwydwaith Nyrsys Ymgynghorol Anabledd Dysgu (19):

“The primary focus of learning disabilities nursing interventions within the social model of disability is upon reducing or eliminating barriers to good health and thereby increasing social inclusion.”

Dylai nyrsys anableddau dysgu a’u cyflogwyr gydnabod eu cyfrifoldeb hollbwysig er mwyn gwella iechyd a lles a lleihau anghydraddoldebau a dylent ymwneud â chomisiynu, cynllunio, monitro a darparu gwasanaethau er mwyn sicrhau eu hygyrchedd.

Mae dull gweithredu sy’n seiliedig ar bartneriaeth ar draws y rhychwant oes sy’n ymwneud â gofal sylfaenol, iechyd plant, iechyd meddwl, gofal eilaidd a gwasanaethau iechyd anableddau dysgu arbenigol yn hanfodol.

Mae nyrsys anableddau dysgu mewn sefyllfa ddelfrydol i gyfrannu tuag at y dulliau ataliol, ymyriadau cynnar, seiliedig ar gryfderau ac iechyd cyhoeddus sy’n cael eu defnyddio fwyfwy er mwyn diwallu anghenion iechyd y boblogaeth gyffredinol. Er bod gweithgaredd hybu iechyd wedi bod yn rhan flaenllaw o arferion nyrsys anableddau dysgu ers blyneddau, nid yw dulliau eraill o ddiwallu anghenion iechyd, sy’n fwy rhagweithiol ac ataliol, ac yn ymwneud ag iechyd cyhoeddus, wedi bod mor amlwg yn eu gwaith o ddydd i ddydd.

Bydd y dull cyfannol ehangach hwn o ddiwallu anghenion iechyd yn:

- sicrhau bod gweithredu ataliol ac ymyriadau cynnar yn rhan greiddiol o asesu a chynllunio gofal;
- annog pobl sydd ag anableddau dysgu, eu teuluoedd a’u gofawyr i chwarae rhan fwy gweithredol wrth reoli eu hiechyd eu hunain; ac yn
- cefnogi dulliau gofalu ac ymyriadau sy’n seiliedig ar gryfderau neu asedau.

Mae gwir angen i ymyriadau iechyd cyhoeddus ddiwallu anghenion pobl sydd ag anableddau dysgu, eu teuluoedd a’u gofawyr ac i nyrsys anableddau dysgu ymgysylltu â chydweithwyr ym meysydd iechyd cyhoeddus a gofal sylfaenol ac mewn asiantaethau iechyd a thraws-sectoraidd perthnasol eraill, fel gwasanaethau cyfiawnder troseddol a digartrefedd.

Mae model a gynigir ar gyfer mynd i’r afael ag anghenion iechyd yng nghyd-destun nyrsio anableddau dysgu i’w weld yn Ffig. 1.

Ffig. 1

Model a gynigir ar gyfer mynd i’r afael ag anghenion iechyd yng nghyd-destun nyrsio anableddau dysgu		
Cyd-destun	Rolau nyrsio/ymyriadau	Canlyniadau
Gweithio gyda phlant	Cefnogi teuluoedd. Ymyriad cynnar. Dysgu sgiliau.	Cynyddu potensial y plentyn. Gwella gwaith rhyngasiantaethol. Lleihau nifer y problemau iechyd hirdymor.
Anghydraddoldebau mewn iechyd	Sgrinio iechyd/hwyluso. Cynlluniau gweithredu iechyd/ymyriadau. Gwella mynediad. Ymyriadau addysg eraill. Dylanwadu ar bolisiâu. Eiriolaeth.	Ffyrdd iachach o fyw. Lleihau afiachusrwydd a marwolaethau. Llai o risg i gleifion mewn gwasanaethau cyffredinol. Cynhwysiant cymdeithasol.
Gweithio gyda rhieni a theuluoedd	Cefnogi rhieni a brodyr a chwiorydd pobl sydd ag anableddau dysgu. Cefnogi rhieni sydd ag anabledd dysgu. Therapi teulu. Addysg/ymwybyddiaeth.	Darparu gwasanaethau sy’n ymateb i ofynion teuluoedd. Llai o broblemau diogelu. Gwell iechyd teuluol a ffordd o fyw.
Pobl sy’n wynebu risgiau ychwanegol	Targedu anghenion iechyd cyhoeddus perthnasol (e.e. iechyd meddwl, cyffuriau/ alcohol a rhywioldeb). Ymyriadau grŵp. Dulliau sy’n seiliedig ar gryfderau.	Gwell hunanofal, cefnogaeth i gyfoedion ac annibyniaeth. Llai o risg a phroblemau diogelu. Llai o hunan-niweidio a chynhyrfu.
Comisiynu	Asesu llwyth achosion/ anghenion y boblogaeth.	Gwell trefniadau comisiynu gwasanaethau, yn seiliedig ar ffeithiau.

Enghraifft o ymarfer cadarnhaol:

Hwyluso iechyd

Mae'r rôl hwylusydd iechyd yn canolbwyntio ar sicrhau bod pobl sydd ag anableddau dysgu'n byw bywydau iachach ac yn mwynhau gwell iechyd. Mae nifer sylweddol o oedolion ag anableddau dysgu nad ydynt yn cael gwasanaeth gan dimau anableddau dysgu cymunedol ond sy'n hysbys i staff practis meddygon teulu.

Mae cronfa ddata'n cael ei llunio ar hyn o bryd yn ardal Ymddiriedolaeth y De yng Ngogledd Iwerddon, er mwyn darparu ffigurau cywir. Mae'r hwylusydd gofal iechyd wedi ymweld â phob practis a bydd yn:

- cyfarfod rheolwr y practis i groesgyfeirio enwau oedolion sydd ag anableddau dysgu â rhestrau poblogaeth y practis;
- darparu sesiwn addysg i feddygon teulu, nyrsys practis a staff y dderbynfa ar anghenion iechyd a ffactorau sy'n atal anghenion rhag cael eu diwallu;
- annog staff practis i sefydlu clinigau a chwblhau archwiliad iechyd trylwyr o bob unigolyn;
- egluro gofynion y gwasanaethau gwell a chyfeiriedig;
- cytuno ar ddyddiadau ar gyfer clinigau gyda meddygon teulu a rhoi cyngor ynglŷn â sut i sicrhau bod nifer da'n dod i'r apwyntiadau.

Mae ffigurau gofal sylfaenol yn dangos bod 932 o asesiadau iechyd wedi cael eu cynnal yn 2009 a 904 yn 2010. Mae meddygon teulu a staff nyrsio practis yn gwerthfawrogi mewnbyn a chefnogaeth glinigol i ddatblygu dealltwriaeth o bobl sydd ag anableddau dysgu, yn enwedig ynglŷn â rheoli ymddygiad, anawsterau cyfathrebu, materion cydsynio ac anghenion iechyd. Mae'r dadansoddiad hyd yn hyn yn awgrymu bod practisiau sydd â hwylusydd iechyd ar y safle'n fwy tebygol o fodloni gofynion gwasanaethau gwell a chyfeiriedig.

Mae nifer fawr o broblemau iechyd wedi cael eu nodi, gan gynnwys gordewdra, diabetes, pwysedd gwaed uchel, diffyg adolygiad o feddyginiaeth a diffyg electrocardiogramau ar gyfer pobl ar feddyginiaeth wrth-seicotig. Mae llawer o'r problemau iechyd hyn yn rhai na sylwyd arnynt cyn hyn ac na roddwyd sylw iddynt. Mae meddygon teulu a staff practis wedi datblygu perthynas gyda phobl sydd ag anableddau dysgu, eu teuluoedd a'u gofalwyr, ac mae gan staff practis well dealltwriaeth o'u problemau iechyd.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Brea Crothers yn brea.crothers@southerntrust.hscni.net neu Marie Loughran yn marie.loughran@southerntrust.hscni.net

Argymhelliad 7

Dylai comisiynwyr a darparwyr gofal iechyd a gofal cymdeithasol sicrhau bod nyrsys anableddau dysgu'n gallu cydweithio'n effeithiol â gwasanaethau iechyd cyffredinol, gan gynnwys gwasanaethau iechyd meddwl, er mwyn mynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n atal pobl ag anableddau dysgu rhag gwella eu hiechyd. Dylai hyn gynnwys dulliau gweithredu rhagweithiol sy'n canolbwyntio ar wella iechyd, atal, y teulu cyfan ac iechyd cyhoeddus.

2.4 Darparu gwasanaethau arbenigol

Lle rydym nawr

Mae'r gwasanaethau arbenigol presennol, pan fônt yn cael eu defnyddio'n briodol, yn darparu ymyriad cynnar, ffyrdd o ddatrys argyfyngau ac allgymorth a all leihau derbyniadau diangen i'r ysbyty drwy asesiad arbenigol, cynllunio gofal, ymyriadau ac arfarniadau ar gyfer unigolion a'u teuluoedd.

Mae'r angen am sgiliau nyrsio arbenigol yn y meysydd hyn yn sylweddol yn barod ac mae'n debygol o gynyddu yn y dyfodol. Dylai nyrsys anableddau dysgu sy'n gweithio mewn gwasanaethau arbenigol feddu ar y sgiliau arbenigol priodol, neu fod yn gweithio i'w datblygu, a dylent allu dangos lefelau uwch o grybwyll, disgrisiwn a gallu i wneud penderfyniadau mewn gofal clinigol (20) sy'n berthnasol i'w rôl.

Lle rydym eisiau bod

Mae tystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr adolygiad yn awgrymu y gellid datblygu rhagor ar wasanaethau asesu a thrin a defnyddio ystod o ymyriadau therapiwtig sy'n arwain at ganlyniadau cadarnhaol i bobl sydd ag anableddau dysgu. Byddai hyn yn galw am ragor o gefnogaeth a buddsoddiad mewn addysg a datblygu. O ganlyniad, rhaid cefnogi rôl arbenigol nyrsio anableddau dysgu mewn gwasanaethau asesu a thrin drwy ddatblygu modelau gofal priodol a darparu cefnogaeth addysgol berthnasol.

Dylai darparwyr a chomisiynwyr gofal iechyd adolygu anghenion eu poblogaethau a gwneud darpariaeth er mwyn sicrhau bod sgiliau nyrsio anableddau dysgu arbenigol yn cael eu darparu lle bo angen. Gallai hyn olygu adolygu cyfluniad eu gweithlu presennol a chydweithio mwy gyda darparwyr addysg.

Er mwyn sicrhau bod pobl sydd ag anableddau dysgu a'u teuluoedd yn cael y gofal cyfunol gorau, bydd angen i sgiliau sy'n cael eu cysylltu'n draddodiadol â nyrsio aciwt a chymunedol ddod yn rhan greiddiol o "becyn" nyrsys anableddau dysgu.

Enghraifft o ymarfer cadarnhaol:

Gwasanaethau arbenigol

Mae uned diogelwch isel sy’n darparu asesiad a thriniaeth i ddynion sydd ag anableddau dysgu a phroblemau fforensig yng Ngogledd Iwerddon wedi datblygu gwaith grŵp a gwaith therapiwtig 1:1 ar gyfer unigolion sy’n dangos ymddygiadau (neu sydd mewn perygl o gyflawni ymddygiadau) sy’n niweidiol yn rhywiol i eraill.

Y rhaglen asesu a thrin a weithredwyd i ddechrau ar gyfer y grŵp hwn oedd rhaglen achrededig y Swyddfa Gartref, “Adapted Sex Offender Treatment Programme”. Cyn gweithredu’r rhaglen, roedd yn ofynnol i ddau aelod o’r staff nyrsio ddilyn hyfforddiant achrededig dwys mewn cyflawni gwaith grŵp uwch a chwblhau cyfnod ar secondiad gyda gwasanaethau prawf, yn darparu rhaglenni ac yn llunio asesiadau risg a chynlluniau rheoli ar gyfer troseddwy. Yn dilyn hynny cwblhawyd rhagor o hyfforddiant er mwyn darparu triniaeth benodol i’r rhai hynny oedd ag anableddau dysgu.

Roedd y rhaglen yn seiliedig ar y model therapi gwybyddol ymddygiadol, a oedd yn rhoi cyfle i unigolion ysgwyddo cyfrifoldeb am eu hymddygiad troseddol a gweithio er mwyn datblygu sgiliau a fyddai’n eu helpu i nodi eu meysydd risg dynamig penodol a llunio strategaethau a fyddai’n eu hatal rhag mynd yn ôl i’w hen arferion ac yn lleihau’r risg o aildroseddu.

Cafodd y gwaith ei gydnabod yn 2008 pan ddyfarnwyd gwobr Nyrs RCN y Flwyddyn ar gyfer Gogledd Iwerddon i ddwy nyrs o’r ysbyty oherwydd eu gwaith yn sefydlu ac yn hwyluso rhaglen driniaeth a oedd yn hollol unigryw yng Ngogledd Iwerddon ar y pryd.

Mae staff nyrsio’n darparu gwasanaeth ymgynghori ar dechnegau hwyluso, cynnwys rhaglenni a darparu rhaglenni. Rhagwelir y bydd nyrsys sydd eisoes wedi cymhwyso i ddarparu gwaith grŵp uwch hefyd yn ymwneud â hyfforddi staff eraill i ddarparu’r rhaglen newydd. Bydd hyn yn arwain at grŵp craidd o nyrsys yn yr ysbyty sy’n gallu gweithio fel therapyddion, gan ddarparu triniaeth mewn gwaith grŵp a sefyllfaoedd 1:1 a llunio asesiadau risg a chynlluniau rheoli mewn partneriaeth â phobl sydd ag anableddau dysgu er mwyn hwyluso dychwelyd i fyw yn y gymuned yn y ffordd fwyaf priodol a diogel.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Rhonda Scott yn rhonda.scott@belfasttrust.hscni.net

Argymhelliad 8

Dylai comisiynwyr a darparwyr gwasanaeth sicrhau bod gwasanaethau anabledd dysgu arbenigol ar gyfer anghenion cymhleth a dwys (gan gynnwys gwasanaethau asesu a thrin ym mhob sector) yn cyflogi nifer digonol o nyrsys anableddau dysgu cofrestredig sydd wedi cael eu paratoi’n briodol ac sy’n cael eu cefnogi. Mae hyn yn pwysleisio’r angen i gefnogi a datblygu argaeledd sgiliau a gwybodaeth glinigol arbenigol ac uwch nyrsys anableddau dysgu ym mhob lleoliad.

*“Roedd gen i amheuon ynglŷn â chael y myfyriwr
[nyrsio anableddau dysgu] yno... ond rydw i wedi
newid fy meddwl.... Os yw ei ddealltwriaeth a'i
ddawn naturiol i ymdrin â sefyllfaoedd anodd yn
enghraifft o'r hyn sydd o'n blaenau, yna does gennym
ddim byd i boeni amdano.”*

Gofalwr teuluol

Pennod 3

Cryfhau ansawdd

*“Mae nyrsys anableddau dysgu yn gwrandao ac yn gwneud yn siŵr fy mod
i'n cael dweud beth rydw i'n ei feddwl ynglŷn â'r hyn sy'n digwydd i mi.”*

Person ag anableddau dysgu



Pennod 3. Cryfhau ansawdd

Mae’r bennod hon yn ymdrin â rhai o’r prif ystyriaethau sy’n sail i ansawdd. Wrth gwrs, bydd paratoi a datblygu nyrsio anableddau dysgu’n briodol yn cyfrannu at bob pennod yn yr adroddiad hwn, ond yn yr achos hwn mae wedi’i gysylltu ag ansawdd yng nghyswllt y materion a ganlyn:

- dangos canlyniadau ansawdd
- gwella ansawdd
- paratoi a datblygu nyrsys anableddau dysgu
- cynyddu recriwtio a chadw
- datblygu gwybodaeth a sgiliau’r gweithlu ar gyfer y dyfodol
- cael mynediad at oruchwyliaeth.

3.1 Dangos canlyniadau ansawdd

Lle rydym nawr

Mae nifer o heriau yn gysylltiedig â dangos ansawdd, effeithiolrwydd ac effaith nyrsio anableddau dysgu drwy fesur canlyniadau, ac un o’r rhain yw’r ffaith fod gwaith nyrsys anableddau dysgu yn aml yn cael ei roi yng nghyd-destun tîm ehangach rhyngddisgyblaethol a rhyngasiantaethol, sy’n golygu ei bod yn anodd nodi eu cyfraniad penodol tuag at y canlyniadau.

Lle rydym eisiau bod

Mae canlyniadau iechyd cadarnhaol yn gwella statws iechyd pobl ac ansawdd eu bywydau, ac maent hefyd yn cyfrannu tuag at y ffactorau sy’n ganolog i sefydliadau ac sy’n hybu’r polisi, megis canolbwyntio ar yr unigolyn, diogelwch, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd, drwy wella mynediad at wasanaethau iechyd cyffredinol, atal derbyniadau i ysbytai a sicrhau bod cleifion yn cael eu rhyddhau’n gynnar.

Byddai fframwaith mesur canlyniadau a dangosyddion canlyniadau yn caniatáu i nyrsys anableddau dysgu ddangos eu heffeithiolrwydd mewn asesiadau, cynlluniau gofal ac ymyriadau nyrsio ar lefel unigolion ac ar lefel gwasanaeth yn y cyd-destun amlddisgyblaethol hwnnw. Dylid edrych ar y potensial i addasu fframweithiau mesur o’r fath a’u defnyddio ar draws sectorau i helpu i integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol.

Dylai fframwaith mesur ganolbwyntio ar asesu effeithiol, cynllunio gofal, ymyriadau ac arfarnu. Dylai’r holl ymyriadau gan nyrsys, fel unigolion neu fel rhan o dîm ehangach, fod yn seiliedig ar asesiad nyrsio hyfedr a strwythuredig o alluoedd ac anghenion yr unigolyn sydd ag anableddau dysgu. Dylai amcanion sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn ar gyfer ymyriadau nyrsio, ag amserlenni wedi eu nodi ar gyfer arfarnu, gael eu hysgrifennu’n glir wedyn mewn cynlluniau gofal nyrsio.

Byddai set gytunedig o ddangosyddion, wedi ei datblygu ar y cyd â nyrsys a phobl sydd ag anableddau dysgu, eu teuluoedd a’u gofalwyr, yn rhoi tystiolaeth o gyfraniad nyrsys anableddau dysgu ac yn ffordd o’i fesur. Mae hyn yn arbennig o bwysig o gofio’r pwyslais presennol ar effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a gwerth ychwanegol.

Gall ystod o ganlyniadau a dangosyddion canlyniadau nodi gofal nyrsio effeithiol o safon uchel sy’n gysylltiedig â rolau a lleoliadau ymarfer penodol. Dyma rai enghreifftiau:

- gwelliannau mewn statws iechyd
- cynyddu mynediad at wasanaethau iechyd cyffredinol
- hybu annibyniaeth a gweithrediad cymdeithasol
- gwella maethiad
- gwella lles seicolegol ac emosiynol
- lleihau ffitiau.

Efallai hefyd y bydd angen dull mwy penodol sydd wedi’i dargedu er mwyn mesur canlyniadau, gan ddibynnu ar y rôl, y swyddogaeth a’r lleoliad. Bydd angen dangosyddion rolau penodol (ar gyfer nyrsys anableddau dysgu sy’n cael eu cyflogi, er enghraifft, fel hwyluswyr iechyd neu’r rhai hynny sy’n gweithio mewn rolau cyswllt aciwt neu mewn gwasanaethau fforensig), dangosyddion cyflyrau penodol (er enghraifft ar gyfer nyrsys epilepsi), mesurau canlyniad profiad ac ansawdd bywyd (drwy holiaduron ac arolygon defnyddwyr gwasanaeth, cwynion a chanmoliaeth, er enghraifft) a chynnwys anableddau dysgu wrth fesur dangosyddion perfformiad allweddol cyffredinol ar lefel gwasanaeth neu bolisi neu drwy raddfeydd sydd wedi cael eu sefydlu (fel Graddfeydd Canlyniadau Pobl sydd ag Anableddau Dysgu ‘Health of the Nation’ (HONOS-LD) (21)).

Mae’n bwysig bod pobl sydd ag anableddau dysgu, eu teuluoedd a’u gofalwyr yn cael eu cynnwys wrth benderfynu ynglŷn â’r canlyniadau.

Enghraifft o ymarfer cadarnhaol:

Datblygu therapi teulu ymddygiadol

Mae nyrs anabledau dysgu arbenigol yn Lothian wedi gweithio gyda chlinigwyr eraill er mwyn addasu a darparu therapi teulu ymddygiadol i bobl sydd ag anabledau dysgu ac mae wedi hyfforddi 18 o nyrsys i ddefnyddio'r dull. Erbyn hyn mae gan y gwasanaeth dri hyfforddwr Therapi Teulu Ymddygiadol sy'n arbenigo mewn anabledau dysgu ac mae wedi datblygu cysylltiadau agos â chlinigwyr a hyfforddwyr iechyd meddwl cyffredinol.

Mae'r dull yn cael ei weithredu mewn nifer o dimau anabledau dysgu cymunedol. Erbyn hyn mae clinigwyr yn defnyddio cyfres o fesurau canlyniadau i fonitro ei effeithiolrwydd, gyda'r cleient yn cwblhau asesiad 'Clinical Outcomes in Routine Evaluation – Learning Disability' (CORE-LD) ac aelodau o'r teulu'n cwblhau holiadur dan y teitl 'Caregiver Strain Questionnaire' (CGSQ) a holiadur arall dan y teitl 'Family Functioning Questionnaire' (FFQ). Mae staff asiantaethau gofal hefyd yn cwblhau holiadur FFQ wedi ei addasu.

Cyflwynwyd astudiaeth achos lwyddiannus yn dangos lleihad mewn straen gofalu i aelod o'r teulu a chynnydd mewn gweithrediad i staff cymorth a'r aelod o'r teulu yng nghynhadledd Cymdeithas Seicotherapi Ymddygiadol a Gwybyddol Prydain yn 2011. Cyflwynwyd cyfres o achosion yn ymwneud â phum teulu yng nghynhadledd y Seattle Club ar ymchwiliad i anabledau deallusol a datblygiadol yn 2011. Roedd y canlyniadau'n dangos lleihad yn y straen i deuluoedd ar yr holiadur straen gofaluwr yn y pum achos, gyda gweithrediad teuluol yn gwella ym mhob aelod. Gwelwyd lleihad mewn lefelau gofid mewn tri o'r pedwar unigolyn a gwblhaodd y CORE-LD. Mae'n werth sylwi bod gwasanaethau wedi bod yn ymwneud am gyfnod hwy ym mhob un o'r pum achos, sy'n awgrymu bod eu problemau'n bodoli ers tro ac nad oedd dulliau eraill o'u trin wedi bod yn effeithiol.

Mae gan nyrsys anabledau dysgu fwy o wybodaeth a hyder yn dilyn hyfforddiant therapi teulu ymddygiadol. Mae'r hyfforddiant hefyd wedi rhoi strwythur clir i'r clinigwyr weithredu'r dull. Mae goruchwyliaeth reolaidd wedi helpu i gynnal y gwaith darparu ac i gynnal hyder clinigwyr.

Mae'r cynlluniau i ddatblygu'r gwaith hwn ymhellach yn cynnwys:

- dal i ddatblygu'r sail dystiolaeth gan arfarnu effeithlonrwydd y dull;
- ehangu'r hyfforddiant therapi teulu ymddygiadol i bob tîm anabledau dysgu cymunedol yn GIG Lothian a dal i ehangu'r rhwydwaith goruchwyllo;
- datblygu llwybrau gwell ar gyfer atgyfeiriadau a lefel dwyster therapi teulu ymddygiadol sy'n seiliedig ar gymhlethdod y problemau iechyd meddwl;
- ehangu'r hyfforddiant therapi teulu ymddygiadol i waith cymdeithasol, er mwyn sicrhau gwell cydweithio rhwng iechyd a gofal cymdeithasol; a
- sefydlu cysylltiadau ag NHS Education for Scotland gyda'r bwriad o ddatblygu'r dull ar gyfer nyrsys ar raddfa ehangach.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Keith Marshall yn keith.marshall2@nhs.net

Argymhelliaid 9

Dylai nyrsys anabledau dysgu, eu rheolwyr a'u harweinwyr ddatblygu a chymhwyso fframweithiau mesur sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau er mwyn cael tystiolaeth o'u cyfraniad tuag at wella canlyniadau iechyd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a dangos gwerth am arian. Efallai y bydd hyn yn galw am waith penodol i ddarganfod cwmpas y fframweithiau presennol.

3.2 Gwella ansawdd

Lle rydym nawr

Mae nyrsys anabledau dysgu'n croesawu'r ymdrech ehangach i sicrhau ymarfer a gwelliannau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ond gellid gwella eu cyfraniad. Mae gwaith trawsnewid yn cael ei wneud ar hyn o bryd ledled y DU dan raglenni diogelwch cleifion a gwaith i sbarduno ansawdd, arloesi, cynhyrchiant ac atal. Gallai elfennau o ymarfer nyrsio anabledau dysgu elwa o ganlyniad i ddefnydd systematig o offer cynhyrchiant fel Productive Series/Releasing Time to Care a gwyddor gwelliannau gadarn.

Lle rydym eisiau bod

Dylai nyrsys anabledau dysgu chwarae mwy o ran yn yr ystod o waith trawsnewid, cynhyrchiant, gwella a datblygu ymarfer.

Argymhelliaid 10

Dylai nyrsys anabledau dysgu chwarae mwy o ran a chryfhau eu cysylltiadau â gwaith trawsnewid, gwella cynhyrchiant a datblygu ymarfer.

3.3 Paratoi a datblygu nyrsys anabledau dysgu

Lle rydym nawr

Mae gweithlu sydd wedi cael ei baratoi'n dda, ac sy'n cael ei ddatblygu a'i gefnogi ar bob lefel yn hanfodol er mwyn darparu gofal iechyd o safon i bobl sydd ag anabledau dysgu, ac mae addysg a hyfforddiant drwy gydol y llwybr gyrfa yn allweddol er mwyn cyflawni hyn.

Dylai pobl sydd ag anabledau dysgu, eu teuluoedd a'u gofaluwr gael eu cynnwys ym mhob agwedd ar ddylunio, datblygu a darparu'r cwricwlwm.

Dylai gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn (22) fod yn sail i addysg nyrsys anabledau dysgu. Mae wedi cael ei ddiffinio fel a ganlyn:

"... the delivery of a healthcare experience that recognises and responds flexibly to each person as a unique individual, builds trust and empathy, and engages them in decisions that affect their healthcare and wellbeing. Person-centred care is an approach which recognises that the quality of communication and human engagement with the person receiving healthcare will underpin the effectiveness of the clinical encounter, and therefore impact on the person's healthcare experience and outcomes."

Mae hyn yn golygu gweithio gyda phobl eraill er mwyn nodi amcanion ystyrlon sy'n cyd-fynd â'u dyheadau a'r canlyniadau y maent yn awyddus i'w gweld, yn hytrach na chanolbwyntio ar beth y mae gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn meddwl y mae ar bobl ei angen.

Lle rydym eisiau bod

Dylai rhaglenni addysg cyn- ac ôl-gofrestru gael eu cynllunio er mwyn adlewyrchu materion fel gofal sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn a’r agenda bersonoli a’r anghenion gofal cymhlethach sy’n dod i’r amlwg yn awr yn y boblogaeth.

Mae’r adolygiad hwn yn canolbwyntio ar nyrsys anabledau dysgu, ond ni ellir anwybyddu pa mor bwysig yw hi bod pob myfyriwr nyrsio ar lefel israddedigion yn datblygu gwybodaeth a sgiliau craidd i weithio gyda phobl sydd ag anabledau dysgu, eu teuluoedd a’u gofalwyr. Pwysleiswyd hyn gyda safonau’r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ar gyfer addysg nyrsio cyn cofrestru (20) ac Adroddiad Michael ar fynediad at ofal iechyd ar gyfer pobl sydd ag anabledau dysgu (23).

Enghraifft o ymarfer cadarnhaol:

Cefnogi datblygiad sgiliau a gwybodaeth mewn meysydd nyrsio eraill (gastrostomi endosgopig drwy’r croen (PEG))

Gall pobl sy’n dibynnu ar PEG er mwyn cael maeth, hylif a meddyginiaeth gael anawsterau pan fo dyfeisiau’n cael eu rhwystro neu’n cael eu tynnu. Gall hyn olygu eu bod yn gorfod mynd i adrannau damweiniau ac achosion brys. Mae nyrsys anabledau dysgu cymunedol yn Abertawe’n gweithio gyda’r nyrs cyswllt damweiniau ac achosion brys, y nyrs maeth arbenigol ac ymarferwyr nyrsio ysbytai i ddatblygu llwybrau unigol ar gyfer mynediad uniongyrchol at ymyriad. Mae canlyniadau’r gwaith hwn yn cynnwys:

- Llwybrau clir a diogel i gael mynediad at ofal eilaidd; a
- Llai o risg o ymyriadau ymyrrol fel llawdriniaeth neu driniaethau endosgopig.

Nododd y nyrsys hefyd fod pobl ag anabledau dysgu a oedd angen cael eu bwydo drwy eu hymysgaroedd weithiau’n gorfod cael mynediad at gyfleusterau cartref nyrsio er mwyn cael gofal seibiant, yn dibynnu ar ymweliadau cartref gan nyrs gofrestredig ar gyfer gofal cartref, ac yn methu â chael mynediad at wasanaethau dydd oni bai fod nyrsys cofrestredig ar gael. Gweithiodd y nyrsys anabledau dysgu cymunedol mewn partneriaeth ag ystod eang o sefydliadau er mwyn datblygu rhaglen o hyfforddiant ar gyfer darparwyr gofal y sector annibynnol a’r gwasanaethau cymdeithasol fel bod modd llunio cynlluniau gofal sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn, fel nad yw pobl yn gorfod cael mynediad at amgylchedd nyrsio mwyach ar gyfer seibiant a gwasanaethau dydd neu ddibynnu ar wasanaethau nyrsio ardal neu ofal parhaus i ddarparu cefnogaeth. Roedd y broses hon yn galw am gydweithio a chynllunio di-dor er mwyn lleihau’r risgiau a nodwyd i unigolion ac i’r rhai hynny sy’n ymwneud â’u gofal, tra’n hybu gwasanaethau sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Helen Lewis yn helen.lewis@swansea.gov.uk neu Paula Phillips yn paula.phillips@swansea.gov.uk

Argymhelliad 11

Dylai’r rhai hynny sy’n comisiynu, yn datblygu neu’n darparu addysg sicrhau bod yr holl raglenni addysg nyrsio anabledau dysgu’n adlewyrchu’r gwerthoedd craidd, cynnwys a’r dulliau sy’n cael eu hargymell yn yr adroddiad hwn. Dylent hefyd sicrhau bod nyrsys mewn meysydd ymarfer eraill yn datblygu’r wybodaeth a’r sgiliau craidd sydd eu hangen er mwyn gweithio’n ddiogel ac yn briodol gyda phobl ag anabledau dysgu sy’n defnyddio gwasanaethau iechyd cyffredinol.

3.4 Cynyddu recriwtio a chadw

Lle rydym nawr

Fel y nodwyd yn gynharach, mae nifer y darparwyr addysg nyrsio anabledau dysgu cyn cofrestru wedi lleihau dros y blynyddoedd. Bydd angen mynd i’r afael â hyn er mwyn adlewyrchu anghenion cynllunio’r boblogaeth a’r gweithlu.

Gall cael mynediad at baratoad ar gyfer nyrsys anabledau dysgu fod yn anodd i fyfyrwyr mewn rhai rhannau o’r DU, gan gynnwys ardaloedd gwledig ac anghysbell lle nad oes rhaglenni addysg nyrsio anabledau dysgu ar gael yn lleol. Mae cyfraddau gadael cyn gorffen uchel yn broblem ar rai rhaglenni cyn cofrestru, ac oherwydd y newidiadau sy’n gysylltiedig â darparu gwasanaethau i bobl sydd ag anabledau dysgu mae angen i sefydliadau addysg uwch ddatblygu ystod o ddewisiadau ar gyfer lleoliadau clinigol sy’n helpu i sicrhau’r cymwyseddau sy’n ofynnol gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.

Drwy gydol yr adolygiad, dywedodd myfyrwyr eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi’n fwy ac yn cael eu cefnogi’n well lle mae trefniadau mentora cryf mewn lleoliadau ymarfer a chydweithio agos rhwng lleoliadau ymarfer ac addysg. Mae cyfleoedd i nyrsio anabledau dysgu arloesi â modelau darparu newydd mewn rhaglenni addysg sy’n cryfhau cefnogaeth seiliedig ar waith i fyfyrwyr ac yn gwella’r trefniadau gweithio mewn partneriaeth rhwng lleoliadau addysg ac ymarfer.

Lle rydym eisiau bod

Mae angen dulliau newydd o nodi ac ymgysylltu â darparu cronfeydd recriwtio, yn enwedig staff a myfyrwyr anghofrestredig sydd ar hyn o bryd yn dilyn rhaglenni tystysgrif genedlaethol uwch (HNC) mewn colegau addysg bellach. Nid oes digon o ddefnydd yn cael ei wneud o’r cyfleoedd hyn ar hyn o bryd. Gallai’r defnydd o TG a chyfryngau cymdeithasol gynnig llwybr er mwyn cael mynediad at y grwpiau hyn.

Gallai datblygu ystod ehangach o lwybrau carlam a modelau dyfarnu hefyd gynyddu’r posibilrwydd o recriwtio o grwpiau sy’n bodoli’n barod, gan gynnwys nyrsys ar rannau eraill o’r gofrestr a phobl sy’n dymuno newid gyrfa.

Mae’r ystod eang o dechnolegau addysgol sydd ar gael yn awr yn darparu dewisiadau mwy hyblyg ar gyfer darparu rhaglenni addysg. Modelau hyblyg a chynaliadwy o ddatblygu’r cwricwlwm cyn cofrestru sy’n cynnig y dewisiadau mwyaf cadarnhaol ar gyfer camu ymlaen yn y dyfodol ym maes nyrsio anabledau dysgu, ac mae safonau’r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn hybu dulliau o’r fath. Dylid ystyried modelau sy’n cefnogi hyblygrwydd a chynaliadwyedd, megis model prif ganolfan ac is-ganolfannau, dulliau dysgu cyfunol a modelau wedi eu lledaenu, er mwyn helpu i ddarparu addysg cyn cofrestru effeithiol ledled y DU. Rhaid edrych yn ehangach ar ddulliau arloesol o gynllunio a darparu rhaglenni, sy’n cynnwys pobl sydd ag anabledau dysgu a theuluoedd, hybu dulliau sy’n seiliedig ar hawliau ac sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn ac adolygu dewisiadau mewn addysg ryngbroffesiynol.

Argymhelliad 12

Mae angen cynlluniau strategol wedi eu diweddarau ar gyfer rhaglenni nyrsio anabledau dysgu cyn- ac ôl-gofrestru ar gyfer pob un o wledydd y DU er mwyn cefnogi hyblygrwydd a sicrhau model darparu effeithlon a chynaliadwy ar gyfer yr hirdymor. Mae hyn yn pwysleisio’r angen am nifer priodol o leoedd ar raglenni nyrsio anabledau dysgu cyn cofrestru er mwyn bodloni gofynion y gweithlu yn y dyfodol.

3.5 Datblygu gwybodaeth a sgiliau'r gweithlu ar gyfer y dyfodol

Lle rydym nawr

Mae'r dewisiadau ar gyfer addysg cyn cofrestru a datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) yn cael eu cyfyngu gan fod y gweithlu nyrsio anableddau dysgu yn gymharol fach. Yn ychwanegol at hyn, nid yw'n hawdd cael data am anghenion addysgol a chyfleoedd datblygu, gan gynnwys y rhai hynny ar lefel ôl-gofrestru.

Mae proffil sgiliau nyrsio anableddau dysgu'n newid, gyda mwy o bwyslais yn cael ei roi ar ddiwallu anghenion iechyd cymhleth a defnyddio ymyriadau penodol fel therapïau seicolegol; mae rhai nyrsys anableddau dysgu hefyd yn derbyn cyfrifoldebau rhagnodi. Mae cyfleoedd i sefydliadau addysg uwch a darparwyr DPP ymateb i'r newidiadau hyn yn y modd y mae eu rhaglenni'n cael eu datblygu a'u darparu.

Mae gweithwyr cefnogi nyrsio eisoes yn chwarae rhan hollbwysig a fydd yn newid wrth i rôl nyrsys cofrestredig ddatblygu. Mae'n bwysig bod darparwyr gwasanaethau'n datblygu seilwaith addysgol sy'n diwallu anghenion y grŵp hwn.

Lle rydym eisiau bod

Mae cyfleoedd creadigol i ddatblygu rhaglenni addysg yn cynnwys dulliau dysgu cyfunol, cydweithredu rhwng darparwyr addysg a gwahanol sectorau a datblygu cyfleoedd addysgol rhyngbroffesiynol ymhellach.

Enghraifft o ymarfer cadarnhaol:

Cydweithio i gynllunio a darparu cwricwlwm

Mae'r tîm anableddau dysgu ym Mhrifysgol Napier Caeredin wedi bod yn gweithio gyda phobl sydd ag anableddau dysgu, eu teuluoedd a'u gofawyr, mentoriaid a rhanddeiliaid eraill ers nifer o flynyddoedd er mwyn dylanwadu, cynllunio a darparu addysg nyrsys cyn cofrestru ar gyfer anableddau dysgu. Mae pobl sydd ag anableddau dysgu, eu teuluoedd a'u gofawyr a nyrsys anableddau dysgu'n ymwneud â'r broses o ddewis a chyfweld myfyrwyr ac â'r broses o ddatblygu deunyddiau dysgu, darparu sesiynau yn y dosbarth, ar-lein ac yn y labordy sgiliau clinigol, ac asesu myfyrwyr wrth ymarfer.

Mae'r dull partneriaeth hwn yn ganolog i'r ddarpariaeth addysgol. Yn ogystal â grŵp eang o bobl sy'n gweithio fel darlithwyr cyswllt, mae grŵp datblygu nyrsio anableddau dysgu a grŵp rhanddeiliaid yn cyfarfod yn rheolaidd i adolygu a datblygu mentrau ar y cyd megis creu modiwlau newydd, ehangu'r defnydd o dechnolegau addysgol, cefnogi amgylcheddau dysgu ymarfer a hybu prosiectau sy'n seiliedig ar ymarfer. Mae'r dull hwn wedi arwain at gysylltiadau cryfach rhwng ymarfer ac addysg. Mae cynnwys y deunyddiau dysgu yn berthnasol i ymarfer ac mae cynnwys arbenigwyr yn y broses ddarparu'n sicrhau bod myfyrwyr yn gweld ffocws cryf ar ofal iechyd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, ac ar y teulu, ac sy'n berthnasol i ymarfer.

Wrth i'r defnydd o dechnolegau ar-lein gynyddu, mae strategaeth yn cael ei datblygu er mwyn cynorthwyo pobl sydd ag anableddau dysgu, eu teuluoedd a'u gofawyr a mentoriaid i ddatblygu sgiliau a hyfedredd wrth ddefnyddio technolegau fel Illuminate Live a fforymau trafod ar-lein. Mae'r gwaith hwn wedi cael ei ganmol gan NHS Education for Scotland a'r asiantaeth sy'n gwneud gwaith ailddilysu i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Janet Smith yn ja.smith@napier.ac.uk

Argymhelliad 13

Rhaid i ddarparwyr a gwasanaethau addysg weithio mewn partneriaeth er mwyn sicrhau bod cyfleoedd addysgol a datblygiadol ar gyfer gweithwyr cymorth nyrsio yn cael eu datblygu a'u cryfhau a bod eu manteision i'w gweld drwy systemau arfarnu, a bod cyfleoedd ar gyfer addysg a datblygu ar gael i nyrsys anableddau dysgu cofrestredig i gefnogi eu datblygiad parhaus, gan adlewyrchu anghenion pobl sydd ag anableddau dysgu.

3.6 Cael mynediad at oruchwyliaeth

Lle rydym nawr

Cydnabyddir bod goruchwyliaeth glinigol yn ffordd gefnogol o alluogi dysgu o brofiad gyda'r bwriad o ddatblygu gwybodaeth a gwella gofal (24). Roedd yn amlwg drwy'r prosesau adolygu bod nyrsys anableddau dysgu yn ymwneud â goruchwyllo ar nifer o lefelau ac â gweithwyr proffesiynol amrywiol yn ystod eu gyrfaedd. Fodd bynnag, mae ymgysylltiad â goruchwyliaeth glinigol yn amrywio mewn gwahanol rannau o'r DU ac o bosibl rhwng sectorau.

Lle rydym eisiau bod

Oherwydd y cysylltiad rhwng goruchwyllo effeithiol, dysgu myfyriol ac ymarfer diogel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, dylid ystyried goruchwyliaeth fel elfen hanfodol o ymarfer nyrsio anableddau dysgu cyfoes a rhaid iddo gael ei gefnogi gan gyflogwyr a nyrsys. Gallant ddangos ei werth drwy greu a chadw amser a chefnogaeth wedi'i diogelu ar gyfer goruchwyliaeth glinigol a thrwy geisio dangos canlyniadau goruchwyliaeth mewn ffordd sy'n dangos gwelliannau mewn gofal.

Argymhelliad 14

Dylai gwasanaethau ddarparu systemau er mwyn sicrhau bod nyrsys anableddau dysgu'n cael mynediad at oruchwyliaeth glinigol reolaidd ac effeithiol a bod ei heffaith yn cael ei monitro a'i harfarnu'n rheolaidd.



Pennod 4

Cryfhau'r proffesiwn

“Mae nyrsys anableddau dysgu yn gwrando arnom ni ac yn ein parchu fel oedolion.”

Person ag anableddau dysgu

“Mae'r nyrs anableddau dysgu wedi agor fy llygaid i fyd oedolion sydd ag anableddau dysgu. Mae darparu sesiynau addysgu ynglŷn â phobl ifanc a thros glwyddo gyda'n gilydd wedi bod yn brofiad dysgu gwerthfawr iawn i'r ddau ohonom.”

Pediatregydd ymgynghorol

Pennod 4. Cryfhau’r proffesiwn

Mae’r bennod hon yn ymdrin â rhai o’r prif ystyriaethau sy’n sail i foderneiddio’r gweithlu nyrsio anabledau dysgu yng nghyd-destun:

- arweiniad a rheolaeth
- hyrwyddo’r proffesiwn
- ymchwil a thystiolaeth.

4.1 Arweiniad a rheolaeth

Lle rydym nawr

Mae strwythurau iechyd a gofal cymdeithasol yn aml yn dod â gwasanaethau anabledau dysgu, gwasanaethau iechyd meddwl a/neu wasanaethau cymunedol at ei gilydd. Mae hyn yn golygu ei bod yn bosibl na fydd uwch nyrs anabledau dysgu mewn rôl arweiniol i sicrhau bod materion nyrsio anabledau dysgu’n cael eu nodi a bod sylw’n cael ei roi iddynt. Mae’r sefyllfa leol hon yn cael ei hadlewyrchu ar lefel genedlaethol: mae datganoli yn y DU wedi arwain at wahaniaethau o ran polisi a darparu gwasanaeth rhwng y pedair gwlad, ac mae hyn yn effeithio ar y ffordd y mae arweiniad yn cael ei ddiffinio ar draws y DU. Mae’n bosibl nad oes cyfleoedd amlwg bob amser i nyrsys anabledau dysgu ddangos arweiniad gwleidyddol ar y lefel hon.

Nid oes digon o arian wedi cael ei fuddsoddi mewn rhai ardaloedd mewn rolau arwain ar lefel uwch, gan gynnwys nyrsys ymgynghorol ac ymarferwyr nyrsio uwch, er bod newid yn y patrymau angen yn golygu bod angen arweiniad cryf i hybu’r gwaith o ddatblygu darpariaeth briodol o wasanaethau.

Mae newid mewn patrymau darparu gwasanaeth a strwythurau sefydliadol wedi cael effaith ar gwmpas rolau rheoli, gan effeithio ar gyfrifoldebau rheoli, llinellau atebolrwydd a threfniadau goruchwyllo ac arfarnu. Mae nyrsys anabledau dysgu sy’n gweithio mewn timau amlddisgyblaethol yn aml yn rheoli, a/neu yn cael eu rheoli, gan broffesiynau eraill.

Mae proffil demograffig y proffesiwn yn dangos y bydd llawer o reolwyr yn ymddeol o wasanaethau yn ystod y degawd nesaf, felly bydd angen sicrhau gweithlu soffistigedig a chynllunio ar gyfer olyniaeth.

Lle rydym eisiau bod

Mae arweiniad cryf ym maes nyrsio anabledau dysgu’n hanfodol, ac ystyried yr heriau a amlinellwyd yn y penodau blaenorol. Mae arweiniad yn bwysig hefyd er mwyn hybu’r proffesiwn a sicrhau bod gweithlu wedi ei foderneiddio’n cael ei sefydlu er mwyn diwallu’r anghenion presennol ac anghenion y dyfodol. Mae angen i nyrsys anabledau dysgu ddal i gydnabod a datblygu eu cyfrifoldebau arwain clinigol a dangos a datblygu proffesiynoldeb cryf.

Dylai’r rôl arwain gael ei chefnogi drwy ddatblygu llwybrau gyrfaol clir, cynllunio ar gyfer olyniaeth, penodi ‘hyrwyddwyr’ arwain ym mhob ardal a chreu swyddi nyrsys ymgynghorol mewn ardaloedd allweddol lle nad oes rhai ar hyn o bryd.

Ymdriniwyd â’r angen am fframwaith dynamig ar gyfer gyrfa a datblygiad i gynorthwyo nyrsys anabledau dysgu i ddod yn arweinwyr ac yn rheolwyr y dyfodol yn Argymhelliaid 4.

Enghraifft o ymarfer cadarnhaol:

Arwain a dylanwadu ar wasanaethau (gofal lliniarol)

Dangosodd nyrsys anabledau dysgu cymunedol yn Mhen-y-bont ar Ogwr arweiniad gan ddatblygu gwasanaeth drwy wneud cysylltiadau â gwasanaethau gofal lliniarol lleol er mwyn cynyddu eu sail gwybodaeth a “mapio” gwasanaethau. Wrth weithio gyda’r gwasanaethau hyn, daeth yn amlwg nad oedd unigolion ag anabledau dysgu yn yr ardal yn cael mynediad at wasanaethau gofal lliniarol yn aml iawn, ac mae hyn yn adlewyrchu’r darlun ehangach yn y DU. Nododd y nyrsys anabledau dysgu adnoddau i helpu pobl ag anabledau dysgu, eu teuluoedd a’u gofalwyr, a chymerasant gamau i gynyddu ymwybyddiaeth o’u hangen am ofal lliniarol a gofal diwedd oes drwy gynllun o’r enw “Living Well, Dying Well.” Cyflwynwyd y cynllun hwn a chatau eraill mewn cynhadledd gofal lliniarol genedlaethol yn 2011. Mae’r gwaith hwn o gynyddu ymwybyddiaeth wedi arwain at geisiadau i ddarparu cyngor a chefnogaeth. Mae hefyd wedi darparu cyfleoedd i feithrin cysylltiadau agosach â gwasanaethau eraill er mwyn diwallu anghenion pobl sydd ag anabledau dysgu, eu teuluoedd a’u gofalwyr. Mae’r gwaith hwn yn parhau, ac mae nyrsys anabledau dysgu yn:

- ymchwilio i systemau er mwyn nodi unigolion ag anabledau dysgu sydd â chyflwr sy’n cyfyngu ar eu hoes (bydd y gronfa ddata hon yn galluogi gweithwyr iechyd proffesiynol i gynllunio gofal sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn mewn modd strategol ar gyfer y gofal lliniarol a’r gofal diwedd oes y bydd arnynt ei angen yn y dyfodol);
- dal i weithio gyda gwasanaethau gofal lliniarol er mwyn gwella profiadau byw a marw; a
- dal i gyfrannu tuag at y gwaith o arfarnu’r gofal lliniarol a’r llwybr diwedd oes gyda’r bwriad o wella ei effeithlonrwydd.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Sharon Dixon yn sharon.dixon@wales.nhs.uk neu Claire Jenkins yn claire.jenkins4@wales.nhs.uk

Argymhelliad 15

Mae angen cryfhau arweiniad mewn nyrsio anabledau dysgu mewn lleoliadau ymarfer, addysg ac ymchwil ag arweiniad amlwg, cadarn ar bob lefel, gan gynnwys lefelau strategol a chenedlaethol. Rhaid i wasanaethau sicrhau bod pob nyrs anabledau dysgu mewn ymarfer clinigol yn gallu cael mynediad at arweiniad proffesiynol penodol ar gyfer nyrsio anabledau dysgu. Yn ogystal â’r rhaglenni arwain a datblygu presennol, bydd prosiect traws-sector ar gyfer pob rhan o’r DU er mwyn meithrin a datblygu darpar arweinwyr mewn nyrsio anabledau dysgu yn cael ei arwain gan bedair adran iechyd y DU.

4.2 Hyrwyddo’r proffesiwn

Lle rydym nawr

Yn draddodiadol, mae nyrsio anabledau dysgu wedi bod â phroffil isel ymhlith y boblogaeth gyffredinol ac mae wedi cael llai o sylw na meysydd nyrsio eraill mewn polisi yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Er hynny, mae’r heriau demograffig a’r heriau polisi sy’n cael eu disgrifio yn yr adroddiad hwn yn golygu bod gwella proffil nyrsio anabledau dysgu yn bwysicach nag erioed.

Mae nyrsys anabledau dysgu wedi croesawu rhwydweithio yn y gorffennol, ac mae’r rhwydweithiau presennol cryf ar gyfer nyrsys anabledau dysgu ar draws y DU yn darparu llwyfan grymus y gellir ei ddefnyddio i ddathlu a hyrwyddo eu cyfraniad unigryw.

Lle rydym eisiau bod

Mae’n bwysig bod y proffesiwn yn cael ei hyrwyddo er mwyn sicrhau bod pob sector yn ymwybodol o’r cyfraniad unigryw a’r gwerth ychwanegol y mae nyrsys anableddau dysgu’n ei gynnig, a bod nyrsio anableddau dysgu’n cael ei gyflwyno fel dewis gyrfaol cadarnhaol sy’n rhoi llawer o foddhad.

O ganlyniad, mae gan hyrwyddo delwedd y proffesiwn nyrsio anableddau dysgu ran bwysig i’w chwarae er mwyn annog recriwtio, ond mae’n mynd ymhellach na hynny. Mae’n ymwneud hefyd â dangos i bobl sydd ag anableddau dysgu, eu teuluoedd a’u gofalwyr, y cyhoedd, cydweithwyr proffesiynol a llunwyr polisi y manteision y mae nyrsys anableddau dysgu’n eu cynnig, a datblygu eu dealltwriaeth o’r hyn y gallant ei gyflawni.

Fel rhan o’r ymdrech honno, mae gwaith yn cael ei wneud mewn partneriaeth â Choleg Brenhinol y Nyrsys, gan ganolbwyntio ar ffyrdd o hyrwyddo’r proffesiwn i gynulleidfaoedd proffesiynol a lleyg ehangach, ac mae adnodd hyrwyddo’n cael ei ddatblygu. Disgwylir y bydd y gwaith hwn yn cael ei gwblhau yn 2012.

Mae’r agenda iechyd a gofal cymdeithasol yn darparu rhagor o gyfleoedd i ddatblygu rhwydweithiau a allai gryfhau gwaith partneriaeth ar draws y proffesiwn ym mhob sector. Gallai buddsoddi mewn rhwydweithiau blaengar o safon uchel gefnogi llawer o’r cynlluniau sy’n cael eu hamlinellu yn yr adroddiad hwn.

Enghraifft o ymarfer cadarnhaol:

Porth Anabledd Dysgu y Rhwydwaith Gwybodaeth a Reolir, NHS Education for Scotland (NES)

Mae Porth Anabledd Dysgu y Rhwydwaith Gwybodaeth a Reolir (Managed Knowledge Network Learning Disability Portal), sy’n cael ei gefnogi gan Wasanaethau Gwybodaeth NES, yn cefnogi’r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol sy’n gweithio gyda phobl sydd ag anableddau dysgu.

Mae’r porth yn darparu dull cynaliadwy, hyblyg ac ymatebol o sicrhau bod gwybodaeth gyfredol am anghenion iechyd ac anableddau dysgu ar gael i’r gweithlu yn gyflym ac yn effeithlon, gan ddarparu llwyfan i rannu’r arferion gorau, hyrwyddo cyfleoedd addysgol a chynnal adnoddau. Mae’r cysylltiad â’r Rhwydwaith Gwybodaeth yn caniatáu mynediad at gyfnodolion ar-lein a 500 o gronfeydd data llyfryddol.

Mae’r porth hefyd yn dod â sefydliadau a phobl sy’n rhannu’r un diddordebau at ei gilydd i ganfod, rhannu a defnyddio gwybodaeth er mwyn cefnogi pobl sydd ag anableddau dysgu. Mae’n cynnwys cyfleoedd ar-lein ar gyfer cael mynediad a rhannu gwybodaeth ynghyd â chymorth i ddatblygu sgiliau ac ymddygiadau er mwyn canfod a rhannu gwybodaeth yn effeithiol.

Mae datblygu’r porth yn gyfle unigryw i nyrsio anableddau dysgu ymwneud â phob maes ymarfer a phob maes arbenigedd a rhyngweithio â grwpiau proffesiynol eraill. Mae’r amgylchedd iechyd a gofal cymdeithasol sy’n newid yn gyflym yn gofyn i’r gweithlu nyrsio anableddau dysgu ymateb i newid mewn ymarfer, cysoni gwasanaethau ac integreiddio.

Cynlluniwyd y porth ar gyfer y gweithlu, ond mae hefyd yn caniatáu i bobl sydd ag anableddau dysgu, eu teuluoedd a’u gofalwyr gael mynediad at wybodaeth a chyfrannu at ddadleuon, gan helpu i feithrin hyder a dylanwad wrth ddatblygu ymarfer. Mae’r model rhyngweithiol yn galw ar nyrsys anableddau dysgu, ac yn eu hannog, i dderbyn perchnogaeth, ymgysylltu a datblygu cynlluniau a thrafodaethau newydd, gan greu cymunedau ymarfer.

Gall y porth datblygu hwn rwydweithio ac ymgysylltu ar draws y DU, a thrwy hynny gysylltu cynlluniau cenedlaethol a helpu i’w rhoi ar waith yn lleol. Gall y porth ymateb, tyfu ac addasu i newid mewn technoleg, ymarfer a pholisi.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Tommy Stevenson yn tommy.stevenson@nes.scot.nhs.uk. Gellir cael mynediad i’r porth yn www.knowledge.scot.nhs.uk/learningdisabilities

Argymhelliad 16

Mae ar nyrsys anableddau dysgu angen mecanweithiau i rannu arferion gorau a datblygu’r sail dystiolaeth er mwyn dal i ddatblygu fel proffesiwn. Rhaid i wasanaethau gynorthwyo nyrsys anableddau dysgu i gymryd rhan mewn rhwydweithiau priodol. Bydd rhwydwaith academiaidd ar gyfer nyrsio anableddau dysgu ar lefel y DU yn cael ei greu er mwyn cefnogi’r ymdrech hon.

4.3 Ymchwil a thystiolaeth

Lle rydym nawr

Er bod mwy o ymchwil yn cael ei wneud i feysydd sy’n ymwneud â nyrsio anableddau dysgu (25), mae lle o hyd i ddatblygu rhagor o dystiolaeth ddibynadwy. O ganlyniad, mae ar nyrsio anableddau dysgu angen cefnogaeth ar gyfer:

- gweithgaredd ymchwil
- hyfforddiant ymchwil
- gweithredu canfyddiadau ymchwil mewn ymarfer.

Mae gyrfaoedd ymchwil clinigol–academaidd wedi cael eu hyrwyddo fel un dull o ddatblygu partneriaethau rhwng addysg ac ymarfer. Gellir cael mwy o ogwydd tuag at ymarfer sy’n seiliedig ar dystiolaeth ac ymarfer wedi’i lywio gan dystiolaeth os oes gan addysgwyr ymrwymiad clinigol yn eu portffolios ac os yw clinigwyr yn cadw ffocws pendant ar addysg ac ymchwil yn eu hymarfer. Gall swyddi clinigol–academaidd hybu mwy o integreiddio rhwng ymarfer, addysg ac ymchwil drwy gefnogi’r gwaith o wella’r dystiolaeth a ffocws addysgol ymarfer a hyrwyddo gogwydd cryf at ymarfer mewn addysg ac ymchwil. Ar hyn o bryd, fodd bynnag, mae anghysonderau yn y broses o ddatblygu a phenodi i swyddi clinigol-academaidd anableddau dysgu ledled y DU.

Lle rydym eisiau bod

Er hyn, mae cyfleoedd cyffrous yn y GIG a’r sector annibynnol/gwirfoddol i ddatblygu ystod ehangach o rolau clinigol-academaidd a fyddai’n cryfhau ac yn cynnal ymarfer, addysg a’r ddarpariaeth ymchwil. Dylai’r rolau hyn gynnwys ymchwilwyr ac addysgwyr yn cynnal cysylltiadau ag ymarfer clinigol drwy waith clinigol, goruchwyllo ymarferwyr a chydweithio ar brosiectau datblygu ymarfer penodol ac ymarferwyr yn cysylltu ag addysg ac ymchwil drwy addysgu, ymchwil a chynlluniau sy’n cefnogi addysg mewn ymarfer. Mae angen ymrwymiad sefydliadol clir i greu modelau er mwyn datblygu rolau cynaliadwy fel y rhain.

Dylid cael cysylltiad uniongyrchol rhwng gweithgaredd ymchwil a llywio ymarfer nyrsio anableddau dysgu, a dylai ganolbwyntio ar feysydd sy’n ychwanegu gwerth ac yn darparu manteision clir i bobl sydd ag anableddau dysgu, eu teuluoedd a’u gofalwyr. Mae’n ofynnol i astudiaethau ymchwil ar y cyd, sy’n gysylltiedig â sefydliadau addysg uwch sy’n cynnwys nifer o wahanol ardaloedd daearyddol, hwyluso astudiaethau cymharol ar raddfa fwy a all amlygu elfennau sy’n wahanol ac yn debyg o ran angen a datblygiadau. Dylai cysylltiadau sy’n bodoli’n barod â’r gymuned ymchwil anableddau dysgu yn y DU ac mewn rhannau eraill o’r byd hwyluso hyn.

Yn bwysicach na dim, mae gweithio gyda phobl sydd ag anableddau dysgu yn hanfodol er mwyn sicrhau bod ymchwil yn berthnasol i’w hanghenion a’u profiadau. Mae gan nyrsio anableddau dysgu rai enghreifftiau da yn barod yn y maes hwn a gallai ddangos arweiniad ym maes ymgysylltu, galluogi a chynorthwyo pobl sydd ag anableddau dysgu, eu teuluoedd a’u gofalwyr i gymryd rhan mewn ymchwil.

Enghraifft o ymarfer cadarnhaol:

Cynnwys nyrsys anableddau dysgu mewn ymchwil

Mae’r Ymchwiliad Cyfrinachol i Farwolaethau ymhlith Pobl sydd ag Anableddau Dysgu yn astudiaeth ymchwil dair blynedd sy’n cael ei hariannu gan yr Adran Iechyd a’r Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Anableddau Dysgu yn Lloegr. Mae’n cael ei arwain gan Ganolfan Ymchwil Norah Fry ym Mhrifysgol Bryste ac mae’n cael ei gynnal yn Avon a Swydd Gaerloyw. Mae’r Ymchwiliad yn ymchwilio i bob marwolaeth ymhlith pobl ag anableddau dysgu sydd dros bedair oed gyda’r bwriad o ychwanegu at y dystiolaeth gyfyngedig sy’n bodoli ar hyn o bryd, canfod unrhyw nodweddion y gellid eu hosgoi a’u haddasu sy’n gysylltiedig â’r marwolaethau a dysgu o ymarfer cadarnhaol.

Cyfeiriodd adroddiad Mencap, *Death by Indifference* (7), at bwysigrwydd cynnwys teuluoedd wrth arfarnu gofal. Wrth gynllunio’r Ymchwiliad, roedd y tîm ymchwil yn awyddus i alluogi gofalwyr i gael eu cynnwys, a chydabu fod angen staff â sgiliau priodol er mwyn gofyn am farn gofalwyr ynglŷn â’r ymadawedig, a sicrhau bod y farn honno’n cael ei deall a’i chofnodi’n briodol. Roedd yn bwysig hefyd bod eu hanghenion, fel gofalwyr sy’n galaru, yn cael eu diwallu’n sensitif.

Fel ymarferwyr sy’n canolbwyntio ar unigolion, ac sy’n meddu ar sgiliau i gyfathrebu â theuluoedd, ynghyd â dealltwriaeth dda o’r systemau gofal a’r problemau iechyd cymhleth sy’n wynebu pobl sydd ag anableddau dysgu, recriwtiwyd tîm o 11 o nyrsys anableddau dysgu, yn cael eu cefnogi gan nyrs arwain, i weithio’n rhan-amser fel aelodau o dîm yr Ymchwiliad. Mae’r nyrsys yn cael eu secondio o’u swyddi parhaol i weithio gyda theuluoedd pobl sydd wedi marw, gan gynnal cyfweiliadau, rhoi cefnogaeth iddynt a’u cyfeirio at asiantaethau sy’n cynnig cymorth mewn profedigaeth, os oes angen. Yn ychwanegol at hyn, maent yn siarad ar ran y teuluoedd mewn paneli adolygu amlasiantaethol lleol a gynhelir i drafod pob ymchwiliad i farwolaeth.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Lesley Russ yn lesley.russ@bristol.ac.uk

Argymhelliaid 17

Dylid ehangu ymchwil nyrsio anableddau dysgu er mwyn sicrhau bod ymarfer heddiw ac yn y dyfodol yn seiliedig ar dystiolaeth a bod modd dangos effaith ymyriadau. Rhaid i wasanaethau a darparwyr addysg sicrhau bod gan bob cynllun presennol, a phob cynllun yn y dyfodol, ar gyfer gyrfaoedd clinigol–academaidd gynrychiolaeth briodol o faes nyrsio anableddau dysgu.

“Mae’r nyrs anableddau dysgu wedi bod yn ymwybodol drwy’r adeg o anghenion y teulu cyfan ac mae’r ffaith fod hynny wedi parhau o blentyndod i fywyd oedolyn yn galonogol iawn”

Gofalwr teuluol



Casgliad a chamau nesaf

Casgliad a chamau nesaf

Ymgysylltwyd â llawer o randdeiliaid allweddol wrth gynnal yr Adolygiad o Foderneiddio Nyrsio Anableddau Dysgu yn y DU. Clywyd gobeithion, dyheadau a phryderon ymarferwyr, rheolwyr, addysgwyr ac ymchwilwyr ac, yn bennaf oll, clywyd pa rinweddau y mae pobl sydd ag anableddau dysgu, eu teuluoedd a’u gofalwyr yn eu gwerthfawrogi fwyaf mewn nyrsys.

Byddai’n amhosibl i’r adroddiad hwn gofnodi’r holl bethau a ddysgwyd yn ystod y broses ymgysylltu, ond mae wedi ceisio canolbwyntio ar y camau gweithredu a fydd yn cael yr effaith gadarnhaol fwyaf ar bobl sydd ag anableddau dysgu, eu teuluoedd a’u gofalwyr, y nyrsys sy’n gofalu amdanynt a’r gwasanaethau sy’n eu cynnal.

Y sylfaen ar gyfer y camau gweithredu hyn a’r datblygiadau y maent yn eu cynrychioli yw egwyddorion sylfaenol a sail gwerthoedd nyrsio anableddau dysgu. Yr egwyddorion hyn sydd wedi cyfrannu cymaint tuag at nyrsio anableddau dysgu ac sy’n cael eu gwerthfawrogi gan bobl sydd ag anableddau dysgu, eu teuluoedd a’u gofalwyr.

Mae gan nyrsys anableddau dysgu gyfle yn awr i fynd â’u gwasanaethau ymlaen i lefel newydd.

Mae’r adroddiad hwn wedi nodi argymhellion mewn ystod eang o feysydd sy’n adlewyrchu cymhlethdod a phwysigrwydd nyrsio anableddau dysgu modern. Gwahoddir y pedair gwlad yn awr i ystyried yr argymhellion hyn a symud ymlaen fel sy’n briodol yn eu cyd-destunau eu hunain. Bydd rhai o’r argymhellion yn elwa o gael eu gweithredu ar lefel y DU, ac mae Grŵp Gweithredu’r DU yn cael ei sefydlu i gefnogi’r grwpiau a fydd yn cael eu sefydlu ar lefel gwledydd er mwyn goruchwyllo’r gwaith o ddatblygu cynlluniau gweithredu a symud ymlaen.

Mae’r argymhellion i’w gweld yn Nhabl 2, sy’n dangos pa asiantaethau/unigolion y mae angen iddynt ystyried, ac ymateb, i bob argymhelliad.

Mae’n bwysig pwysleisio, er bod yr argymhellion yn ganolog i’r broses o foderneiddio nyrsio anableddau dysgu yn y DU ac, o ganlyniad, y gallai mwy o sylw gael ei roi iddynt, y dylai’r darllennwyr ystyried yr adroddiad cyfan – mae llawer o negeseuon pwysig a ddylai gael eu hystyried yn ychwanegol at yr argymhellion.

Tabl 2

Crynodeb o’r argymhellion						
Argymhelliad	Gweithredu ar lefel y DU	Gweithredu ar lefel gwlad	Gweithredu ar lefel gwasanaeth	Gweithredu ar lefel addysg	Gweithredu ar lefel comisiynu	Gweithredu ar lefel ymarferwyr unigol
1. Dylai pedair adran iechyd y DU a’r sector annibynnol/ gwirfoddol sefydlu menter gydweithredol genedlaethol er mwyn galluogi gwell dealltwriaeth o weithlu nyrsio anableddau dysgu cofrestredig cynaliadwy o safon uchel, a chynllunio ar ei gyfer, ym mhob sector.	√		√		√	
2. Mae angen systemau i gasglu data am y gweithlu ym mhob gwlad, â chysylltiadau ar draws y DU, er mwyn cynllunio gweithlu i ddarparu nyrsio anableddau dysgu yn y dyfodol. Dylai’r rhain allu cadw gwybodaeth am ddarparu gwasanaeth, gofynion addysgol ac ymchwil a dylent ymdrin â’r sector annibynnol/gwirfoddol.		√	√	√	√	
3. Dylid ystyried datblygu cyfleoedd rôl newydd, arbenigol a datblygedig yng ngoleuni cynllunio gweithlu, datblygu gwasanaeth a darpariaeth addysgol. Yn fwyaf arbennig, dylai hyn ganolbwyntio ar rolau rhagnodi anfeddygol, therapïau seicolegol a theleiechyd a rolau mewn sefyllfaoedd penodol fel y system cyfiawnder troseddol, gwasanaethau iechyd meddwl (yn enwedig dementia) a gwasanaethau awtistiaeth.		√	√	√	√	
4. Dylai pob un o’r pedair gwlad ystyried cysoni eu fframweithiau gyrfaol ôl-gofrestru presennol ar gyfer nyrsio anableddau dysgu er mwyn nodi’n glir pa wybodaeth a sgiliau sydd eu hangen ar nyrsys anableddau dysgu ar bob lefel ac ym mhob lleoliad. Gellid defnyddio’r datblygiadau hyn ar draws sectorau (ag addasiad priodol) i roi fframwaith gyrfaol cydlynol.		√	√			
5. Dylai comisiynwyr a chynllunwyr gwasanaeth gael gweledigaeth glir ar gyfer y ffordd y maent yn sicrhau bod gwybodaeth a sgiliau nyrsys anableddau dysgu’n cael eu darparu i’r bobl iawn, yn y lleoedd iawn, ac ar yr adeg iawn mewn ffordd sy’n adlewyrchu canolbwynt seiliedig ar werthoedd a hawliau gwaith nyrsys anableddau dysgu.			√		√	√
6. Dylai comisiynwyr a darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol sicrhau bod sgiliau, gwybodaeth ac arbenigedd nyrsys anableddau dysgu ar gael drwy’r rhychwant oes. Dylid galluogi hyn drwy gydweithio effeithiol ar draws strwythurau iechyd a gofal cymdeithasol.		√	√		√	
7. Dylai comisiynwyr a darparwyr gofal iechyd a gofal cymdeithasol sicrhau bod nyrsys anableddau dysgu’n gallu cydweithio’n effeithiol â gwasanaethau iechyd cyffredinol, gan gynnwys gwasanaethau iechyd meddwl, er mwyn mynd i’r afael â’r rhwystrau sy’n atal pobl ag anableddau dysgu rhag gwella eu hiechyd. Dylai hyn gynnwys dulliau gweithredu rhagweithiol sy’n canolbwyntio ar wella iechyd, atal, y teulu cyfan ac iechyd cyhoeddus.			√		√	√
8. Dylai comisiynwyr a darparwyr gwasanaeth sicrhau bod gwasanaethau anabledd dysgu arbenigol ar gyfer anghenion cymhleth a dwys (gan gynnwys gwasanaethau asesu a thrin ym mhob sector) yn cyflogi nifer digonol o nyrsys anableddau dysgu cofrestredig sydd wedi cael eu paratoi’n briodol ac sy’n cael eu cefnogi. Mae hyn yn pwysleisio’r angen i gefnogi a datblygu argaeledd sgiliau a gwybodaeth glinigol arbenigol ac uwch nyrsys anableddau dysgu ym mhob lleoliad.			√		√	√

Crynodeb o'r argymhellion						
Argymhelliad	Gweithredu ar lefel y DU	Gweithredu ar lefel gwlad	Gweithredu ar lefel gwasanaeth	Gweithredu ar lefel addysg	Gweithredu ar lefel comisiynu	Gweithredu ar lefel ymarferwyr unigol
9. Dylai nyrsys anableddau dysgu, eu rheolwyr a'u harweinwyr ddatblygu a chymhwyso fframweithiau mesur sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau er mwyn cael tystiolaeth o'u cyfraniad tuag at wella canlyniadau iechyd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a dangos gwerth am arian. Efallai y bydd hyn yn galw am waitth penodol i ddarganfod cwmpas y fframweithiau presennol.			✓			✓
10. Dylai nyrsys anableddau dysgu chwarae mwy o ran a chryfhau eu cysylltiadau â gwaith trawsnewid, gwella cynhyrchiant a datblygu ymarfer.			✓			✓
11. Dylai'r rhai hynny sy'n comisiynu, yn datblygu neu'n darparu addysg sicrhau bod yr holl raglenni addysg nyrsio anableddau dysgu'n adlewyrchu'r gwerthoedd craidd, cynnwys a'r dulliau sy'n cael eu hargymell yn yr adroddiad hwn. Dylent hefyd sicrhau bod nyrsys mewn meysydd ymarfer eraill yn datblygu'r wybodaeth a'r sgiliau craidd sydd eu hangen er mwyn gweithio'n ddiogel ac yn briodol gyda phobl ag anableddau dysgu sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd cyffredinol.			✓	✓	✓	
12. Mae angen cynlluniau strategol wedi eu diweddarau ar gyfer rhaglenni nyrsio anableddau dysgu cyn- ac ôl-gofrestru ar gyfer pob un o wledydd y DU er mwyn cefnogi hyblygrwydd a sicrhau model darparu effeithlon a chynaliadwy ar gyfer yr hirdymor. Mae hyn yn pwysleisio'r angen am nifer priodol o leoedd ar raglenni nyrsio anableddau dysgu cyn cofrestru er mwyn bodloni gofynion y gweithlu yn y dyfodol.		✓	✓	✓		
13. Rhaid i ddarparwyr a gwasanaethau addysg weithio mewn partneriaeth er mwyn sicrhau bod cyfleoedd addysgol a datblygiadol ar gyfer gweithwyr cymorth nyrsio yn cael eu datblygu a'u cryfhau a bod eu manteision i'w gweld drwy systemau arfarnu, a bod cyfleoedd ar gyfer addysg a datblygu ar gael i nyrsys anableddau dysgu cofrestredig i gefnogi eu datblygiad parhaus, gan adlewyrchu anghenion pobl sydd ag anableddau dysgu.			✓	✓		
14. Dylai gwasanaethau ddarparu systemau er mwyn sicrhau bod nyrsys anableddau dysgu'n cael mynediad at oruchwyliaeth glinigol reolaidd ac effeithiol a bod ei heffaith yn cael ei monitro a'i harfarnu'n rheolaidd.			✓			✓
15. Mae angen cryfhau arweiniad mewn nyrsio anableddau dysgu mewn lleoliadau ymarfer, addysg ac ymchwil ag arweiniad amlwg, cadarn ar bob lefel, gan gynnwys lefelau strategol a chenedlaethol. Rhaid i wasanaethau sicrhau bod pob nyrs anabledd dysgu mewn ymarfer clinigol yn gallu cael mynediad at arweiniad proffesiynol penodol ar gyfer nyrsio anableddau dysgu. Yn ogystal â'r rhaglenni arwain a datblygu presennol, bydd prosiect traws-sector ar gyfer pob rhan o'r DU er mwyn meithrin a datblygu darpar arweinwyr mewn nyrsio anableddau dysgu yn cael ei arwain gan bedair adran iechyd y DU.	✓		✓	✓		✓

Crynodeb o'r argymhellion						
Argymhelliad	Gweithredu ar lefel y DU	Gweithredu ar lefel gwlad	Gweithredu ar lefel gwasanaeth	Gweithredu ar lefel addysg	Gweithredu ar lefel comisiynu	Gweithredu ar lefel ymarferwyr unigol
16. Mae ar nyrsys anableddau dysgu angen mecanweithiau i rannu arferion gorau a datblygu'r sail dystiolaeth er mwyn dal i ddatblygu fel proffesiwn. Rhaid i wasanaethau gynorthwyo nyrsys anableddau dysgu i gymryd rhan mewn rhwydweithiau priodol. Bydd rhwydwaith academiaidd ar gyfer nyrsio anableddau dysgu ar lefel y DU yn cael ei greu er mwyn cefnogi'r ymdrech hon.			✓	✓		✓
17. Dylid ehangu ymchwil nyrsio anableddau dysgu er mwyn sicrhau bod ymarfer heddiw ac yn y dyfodol yn seiliedig ar dystiolaeth a bod modd dangos effaith ymyriadau. Rhaid i wasanaethau a darparwyr addysg sicrhau bod gan bob cynllun presennol, a phob cynllun yn y dyfodol, ar gyfer gyrfaoedd clinigol–academaidd gynrychiolaeth briodol o faes nyrsio anableddau dysgu.			✓	✓		

Atodiad 1. Polisiâu allweddol ac ysgogiad proffesiynol yn y pedair gwlad

Lloegr

Yr Adran Iechyd (2001)

Valuing People: a new strategy for learning disability for the 21st century - a White Paper.
Llundain: Yr Adran Iechyd.

Yr Adran Iechyd (2002)

Action for Health, Health Action Plans and Health Facilitation: detailed good practice guidance on implementation for learning disability partnership boards.
Llundain: Yr Adran Iechyd.

Yr Adran Iechyd/Yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd (2003)

Together from the Start: practical guidance for professionals working with disabled children (birth to third birthday) and their families.
Llundain: Yr Adran Iechyd.

Yr Adran Iechyd (2007)

Good Practice in Learning Disability Nursing.
Llundain: Yr Adran Iechyd.

Yr Adran Iechyd (2008)

Healthcare for All: report of the independent inquiry into access to healthcare for people with learning disabilities.
Llundain: Yr Adran Iechyd.

Yr Adran Iechyd (2009)

Valuing People Now: a new three-year strategy for people with learning disabilities.
Llundain: Yr Adran Iechyd.

Yr Adran Iechyd (2009)

World Class Commissioning for the Health and Wellbeing of People with Learning Disabilities.
Llundain: Yr Adran Iechyd.

Yr Adran Iechyd (2009)

The Bradley Report: Lord Bradley's review of people with mental health problems or learning disabilities in the criminal justice system.
Llundain: Yr Adran Iechyd.

Yr Adran Iechyd/Yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd (2009)

Healthy Lives, Brighter Futures. The strategy for children and young people's health.
Llundain: Yr Adran Iechyd.

Yr Adran Iechyd (2010)

Raising Our Sights: services for adults with profound intellectual and multiple disabilities. A report by Professor Jim Mansell.
Llundain: Yr Adran Iechyd.

Gates B (2011)

Learning Disability Nursing: task and finish group: report for the Professional and Advisory Board for Nursing and Midwifery.
Llundain: Yr Adran Iechyd.

Emerson E, Baines S, Allerton L, Welch V (2011)

Health Inequalities & People with Learning Disabilities in the UK: 2011.
Improving Health and Lives: Learning Disabilities Observatory.

Gogledd Iwerddon

Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelwch y Cyhoedd (2005)

Equal Lives: review of policy and services for people with a learning disability in Northern Ireland: the N. I. Bamford Review.
Belfast: DHSSPS.

Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelwch y Cyhoedd (2005)

A Healthier Future: a twenty year vision for health and well being in Northern Ireland 2005–2025.
Belfast: DHSSPS.

Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelwch y Cyhoedd (2006)

The Bamford Review of Mental Health and Learning Disability (NI): forensic services.
Belfast: DHSSPS.

Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelwch y Cyhoedd (2007)

Complex Needs – the nursing response to children & young people with complex physical healthcare needs.
Belfast: DHSSPS.

Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelwch y Cyhoedd (2009)

Delivering the Bamford Vision. The response of the Northern Ireland Executive to the Bamford Review of Mental Health and Learning Disability action plan (2009–2011).
Belfast: DHSSPS.

Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelwch y Cyhoedd (2009)

Integrated Care Pathway for Children & Young People with Complex Physical Healthcare Needs.
Belfast: DHSSPS.

Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelwch y Cyhoedd (2009)

Autism Spectrum Disorder (ASD) Strategic Action Plan 2008/09–2010/11.
Belfast: DHSSPS.

Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelwch y Cyhoedd (2010)

Living Matters, Dying Matters – a strategy for palliative and end of life care for adults in Northern Ireland.
Belfast: DHSSPS.

Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelwch y Cyhoedd (2011)

Improving Dementia Services in Northern Ireland: a regional strategy.
Belfast: DHSSPS.

Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelwch y Cyhoedd (2010)

A Partnership for Care: Northern Ireland strategy for nursing and midwifery 2010–2015.
Belfast: DHSSPS.

Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelwch y Cyhoedd (2011)

Learning Disability Service Framework. Consultation document.
Belfast: DHSSPS.

Guidelines and Audit Implementation Network (2010)

Guidelines: caring for people with a learning disability in general hospital settings.
Belfast: DHSSPS.

Yr Alban

NHS Health Scotland (2004)

Health Needs Assessment Report: people with learning disabilities in Scotland.
Caeredin: NHS Health Scotland.

NHS Quality Improvement Scotland (2006)

Best Practice Statement: promoting access to healthcare for people with learning disabilities.
Caeredin: NHS Quality Improvement Scotland.

NHS Quality Improvement Scotland (2009)

Tackling Indifference: healthcare services for people with learning disabilities national overview.
Caeredin: NHS Quality Improvement Scotland.

Gweithrediaeth yr Alban (2000)

The Same as You? A review of services for people with learning disabilities.
Caeredin: Gweithrediaeth yr Alban.

Gweithrediaeth yr Alban (2002)

Promoting Health, Supporting Inclusion: the national review of the contribution of nurses and midwives to the care and support of people with learning disabilities.
Caeredin: Gweithrediaeth yr Alban.

Llywodraeth yr Alban (2007)

Equally Well. The report of the Ministerial Task Force on Health Inequalities.
Caeredin: Llywodraeth yr Alban.

Llywodraeth yr Alban (2008)

Better Health, Better Care: action plan. What it means for you.
Caeredin: Llywodraeth yr Alban.

Llywodraeth yr Alban (2010)

Getting it Right for Every Child.
Caeredin: Llywodraeth yr Alban.

Llywodraeth yr Alban (2010)

The Healthcare Quality Strategy for NHS Scotland.
Caeredin: Llywodraeth yr Alban.

Llywodraeth yr Alban (2010)

Towards an Autism Strategy for Scotland.
Caeredin: Llywodraeth yr Alban.

Cymru

Grŵp Cyngori ar Weithredu ym maes Anabledd Dysgu a Llywodraeth Cynulliad Cymru (2011)

Practice Guidance on Developing a Commissioning Strategy for People with Learning Disabilities.
Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2002)

Cynhwysiant, Partneriaeth a Datblygiadau Newydd.
Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru (2011)

Good Practice Framework for People with Learning Disabilities Requiring Planned Secondary Care.
Caerdydd: Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2004)

Strategaeth Anableddau Dysgu. Canllawiau Adran 7 ar egwyddorion gwasanaeth ac ymateb y gwasanaeth.
Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2007)

Datganiad ar Bolisi ac Arfer ar gyfer Oedolion ag Anabledd Dysgu.
Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2009)

Strategaeth Nyrsio Cymunedol i Gymru.
Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2009)

Fframwaith Gyrfa Ôl-gofrestru i Nyrsio yng Nghymru.
Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2009)

Ar y Trywydd lawn. Agenda Bolisi i Weddnewid Bywydau Plant a Phobl Ifanc Anabl.
Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010)

Gosod y Cyfeiriad. Gwasanaethau Cychwynnol a Chymuned – Rhaglen Strategol ar gyfer Cyflawni.
Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Llywodraeth Cymru (2011)

Law yn Llaw at Iechyd. Gweledigaeth 5 mlynedd ar gyfer y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.
Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Atodiad 2. Aelodau’r grwpiau llywio

Grŵp Llywio Cydgynhyrchu (yn cael ei gefnogi gan Gonsortïwm Anabledd Dysgu yr Alban)

Ann Burke, Bainsford

Keith Findlay, Glasgow

Angela Halpin, West Dunbartonshire

Lorraine MacKenzie, West Dunbartonshire

Rona Membury, Highland

Ian Stones, Aberdeen

Alexander Thomson, Fraserburgh

Lloegr

Allyson Kent, Dirprwy Bennaeth Nyrsio, Ymddiriedolaeth GIG Addysgu Iechyd Meddwl Humber

Alison Giraud Saunders, Ymgynghorydd Annibynnol (Polisiau ar Waith)

Alison Armstrong, Cyfarwyddwr Rhaglenni Llundain Gyfan, (Iechyd Meddwl, Iechyd mewn Carchardai a Chamddefnyddio Sylweddau)

Amanda Platts, hunan-eiriolwr

Geoff Hodgson (yn cefnogi Amanda Platts), Centrevents

Ann Norman, Cynghorydd Nyrsio Proffesiynol: Anableddau Dysgu/Nyrsio mewn Carchardai, Coleg Brenhinol y Nyrsys

Yr Athro Ben Thomas, Cynghorydd Proffesiynol, Yr Adran Iechyd

Daniel Marsden, Nyrs Datblygu Ymarfer ar gyfer Cleifion sydd ag Anableddau Dysgu, Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Prifysgol Ysbytai Dwyrain Caint

Deborah Hussey, Arweinydd Tîm Gwasanaethau Anabledd Dysgu Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Partneriaeth Swydd Lincoln

Felicity Howdle, Dadansoddwr Gwybodaeth, Centre for Workforce Intelligence (CfWI)

Gweneth Moulster, Nyrs Ymgynghorol, Partneriaeth Anabledd Dysgu Haringey

Helen Laverty, Darlithydd, Prifysgol Nottingham

Helen Mycock (yn cynrychioli Mencap tan Ionawr 2012)

Jacky Vincent, Nyrs Arwain, Anabledd Dysgu a Gwasanaethau Fforensig, Swydd Hertford

Janet Cobb, Ymgynghorydd Annibynnol, Jan-Net Ltd (Cadeirydd)

Jean Willson OBE, gofalwr teulu

Joanna Goddard, Bydwraig Arbenigol ar gyfer Diogelu Plant a Menywod sy’n Agored i Niwed

Susan Bernhauser, Deon yr Ysgol Gwyddorau Dynol ac Iechyd, Prifysgol Huddersfield

Lisa Gregg Herrett, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ansawdd a Datblygu Staff, Choice Support

Marc Pratt, Tîm Allgymorth Iechyd Dwys, GIG Swydd Gaerloyw

Matthew Houghton Hyrwyddwr Anableddau Dysgu, Royal College of General Practitioners Clinical Innovation and Research Centre

Paula Brayinon, Cyfarwyddwr Gweithrediadau a Nyrsio, Calderstones

Peter Hasler, Dirprwy Gyfarwyddwr Nyrsio, Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG De Llundain a Maudsley

Yr Athro Robert Gates, Arweinydd Proffesiynol/Academaidd, Prifysgol Swydd Hertford

Stephan Brusch, Rheolwr Mynediad at Iechyd a Phennaeth y Tîm Datblygu Anabledd Dysgu, GIG Llundain

Steven Hardy, Rheolwr Hyfforddi ac Ymgynghori Canolfan Estia

Steven Rose, Prif Weithredwr, Choice Support

Sue Hudson, Arweinydd Datblygu Ymarfer, Partneriaeth Iechyd Meddwl Suffolk

Sue Turner, Arweinydd Prosiect Gwellu Iechyd a Bywydau, Tîm Datblygu Cenedlaethol ar gyfer Cynhwysiant

Sue Beacock, Deon Cyswllt (Dysgu ac Addysgu), Prifysgol Hull

Terri Dorman, Nyrs Datblygu Ymarfer, Ymddiriedolaeth GIG Partneriaeth Swydd Bedford a Luton

Tricia Handley, Rheolwr Nyrsio Gofal Cymdeithasol Oedolion, Camden

Vicky Stobbart, Rheolwr Gwasanaeth – Anabledd Dysgu, Southwark

Gogledd Iwerddon

Anne Campbell, Rheolwr Gweithrediadau, Ymddiriedolaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Belfast

Barry Mills, Rheolwr Gwasanaeth Clinigol a Therapiwtig, Ymddiriedolaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Belfast

Claire Knox, gofalwr

Damian McAleer, Ymgynghorydd Addysg Nyrsio, Canolfan Reoli Beeches

Donna Morgan, Rheolwr Ardal a Nyrs Arwain, Ymddiriedolaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Gogledd

Fiona Rowan, gofalwr

Francis Rice (Cadeirydd), Cyfarwyddwr Nyrsio, Ymddiriedolaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol y De

Garvin McKnight, Nyrs Staff, Ysbyty Muckamore Abbey, Ymddiriedolaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Belfast

Gillian McMullen, Rheolwr Prosiect Grŵp Monitro Bamford, Cyngor Cleifion a Chleientiaid (PCC)

Glynis Henry, Prif Weithredwr, Cyngor Ymarfer ac Addysg Gogledd Iwerddon (NIPEC)

John Mc Eleney, Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Praxis Care NI

Maurice Devine, Swyddog Nyrsio (Iechyd Meddwl, Anabledd Dysgu a Phobl Hŷn), Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelwch y Cyhoedd

Maureen Piggot, Cyfarwyddwr, Mencap Gogledd Iwerddon

Molly Kane, Ymgynghorydd Nyrsio Iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu Rhanbarthol, Asiantaeth Iechyd y Cyhoedd

Neil Kelly, Rheolwr Gweithrediadau, Ymddiriedolaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Belfast

Yr Athro Owen Barr, Pennaeth yr Ysgol Nyrsio, Prifysgol Ulster

Pauline McLorinan, Seiciatrydd Ymgynghorol Plant a Phobl Ifanc ac Anabledd Dysgu, Ymddiriedolaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Belfast

Peter Griffen, Arweinydd Disgyblaeth, Nyrsio Anabledd Dysgu, Prifysgol Queen's Belfast

Rosaleen Harkin, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Oedolion, Ymddiriedolaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Gorllewin

Thomasina Duff, Nyrs Staff, Ymddiriedolaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Belfast

Yr Alban

Andy Graham, Cadeirydd Rhwydwaith Nyrsys Anabledd Dysgu Cymunedol yr Alban

Billy Pate, Rhwydwaith Nyrsys Anabledd Dysgu Cymunedol yr Alban

Carol Dobson, Prif Swyddog Nyrsio, Comisiwn Lles Meddyliol yr Alban

David Currie, Rheolwr Datblygu, Castlebeck Group Ltd

Elaine Kwiatek, Rheolwr Prosiect, Rhwydwaith Gofal a Reolir Anableddau Dysgu

Gillian Henderson, Cynghorydd Iechyd Meddwl a Rheoli Risg o Hunanladdiad, Gwasanaethau Carchar yr Alban

Hazel Powell, Rheolwr Rhaglen, GIG Lothian

Hugh Masters, Swyddog Nyrsio (Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu) Llywodraeth yr Alban

Jonathan Gray, Ymgynghorydd Nyrsio Anableddau Dysgu, GIG Highland

June Brown, Ymgynghorydd Nyrsio Anableddau Dysgu/Arweinydd Clinigol Gwasanaethau Anabledd Dysgu, GIG Grampian

Linda Allan, Ymgynghorydd Nyrsio Anableddau Dysgu, GIG Glasgow Fwyaf a Clyde

Margaret Serrels, Rheolwr Datblygu Gwasanaethau Clinigol, GIG Swydd Lanark

Mark Gillespie, Ymgynghorydd Nyrsio Iechyd Meddwl Fforensig ac Anableddau Dysgu, GIG Glasgow Fwyaf a Clyde

Melanie Hornett, Cyfarwyddwr Nyrsio, Bwrdd GIG Lothian (Cadeirydd)

Michael Brown, Ymgynghorydd Nyrsio a Darllenydd mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, GIG Lothian/Prifysgol Napier Caeredin

Rosemary Duffy, Gwasanaethau Carchar yr Alban

Selina Clinch, Rheolwr Rhaglen, Healthcare Improvement Scotland

Susanne Forrest, Cyfarwyddwr Rhaglen, NHS Education for Scotland

Tommy Stevenson, Rheolwr Prosiect Addysgol, NHS Education for Scotland

Cymru

Andy Bell, Rheolwr Rhaglen Gwasanaethau Anabledd Dysgu, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Cheryl Evans, Pennaeth Nyrsio, Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

Christopher Griffiths, Nyrs Ymgynghorol/Darlithydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

Dave Hawkins, Nyrs Arwain Anableddau Dysgu Bwrdd Iechyd Hywel Dda

Hayley Tarrant, Pennaeth Gwasanaethau Anabledd Dysgu, Bwrdd Addysgu Iechyd Powys.

Jenifer Clarke, Swyddog Nyrsio/Adran Iechyd y Cyhoedd a'r Proffesiynau Iechyd, Llywodraeth Cymru

Julie Kendall (Cadeirydd), Nyrs Arwain Gwasanaethau Anabledd Dysgu, Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan

Ian Mansell, Uwch Ddarlithydd, Prifysgol Morgannwg

Pete Jones, Cydgysylltydd Llywodraethu Clinigol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Dr Robert Jenkins, Pennaeth Adran Anabledd Dysgu, Prifysgol Morgannwg

Ruth Northway, Athro Anableddau Dysgu, Prifysgol Morgannwg

Ruth Wyn Williams, Darlithydd mewn Nyrsio Anabledd Dysgu / Darlithydd (cyfrwng Cymraeg) mewn Nyrsio, Prifysgol Bangor

Sharon Williams, Pennaeth Cynorthwyol Gwasanaethau Arbenigol, Cyfarwyddiaeth Anableddau Dysgu Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan.

- 1. Emerson E, Hatton C (2009)**
Estimating Future Numbers of Adults with Profound Multiple Learning Disabilities in England.
Lancaster: Centre for Disability Research, Prifysgol Lancaster.
- 2. Adran Iechyd (2001)**
Valuing People: a new strategy for learning disability for the 21st century.
Llundain: Adran Iechyd.
- 3. Coleg Brenhinol y Nyrsys (2011)**
Learning from the Past – Setting out the Future: developing learning disability nursing in the United Kingdom.
Llundain: RCN.
- 4. Parrott R, Tilley N, Wolstenholme J (2008)**
Changes in demography and demand for services from people with complex needs and profound and multiple learning disabilities.
Tizard Learning Disability Review. 13(3):26–34.
- 5. Emerson E, Baines S (2010)**
The Estimated Prevalence of Autism among Adults with Learning Disabilities in England.
Llundain: Adran Iechyd.
- 6. Torr J, Davis R (2007)**
Ageing and mental health problems in people with intellectual disability.
Current Opinion in Psychiatry. 29(5):467–471.
- 7. Mencap (2007)**
Death by Indifference
Llundain: Mencap.
- 8. Mansell I, Wilson C (2010)**
'It terrifies me the thought of the future': listening to current concern of informal carers of people with a learning disability.
Journal of Intellectual Disability. 14(1):21–31.
- 9. Gates B (2011)**
Learning Disability Nursing: task and finish group: report for the Professional and Advisory Board for Nursing and Midwifery.
Llundain: Adran Iechyd.
- 10. Seedhouse D (1986)**
Health. The foundations for achievement.
Chichester: John Wiley.
- 11. Adran Iechyd (2006)**
Modernising Nursing Careers.
Llundain: Adran Iechyd.
- 12. Adran Iechyd (2010)**
Positive Practice Positive Outcomes: a handbook for professionals working with offenders with a learning disability.
Llundain: Adran Iechyd.
- 13. Adran Iechyd (2010)**
Evaluation of nurse and pharmacist independent prescribing.
Llundain: Adran Iechyd.
- 14. Coiffait FM, Marshall K (2011)**
How to recognise and respond to mental health needs
Learning Disability Practice. 14(3):23–28.
- 15. Brown M, Marshall K (2006)**
Cognitive behaviour therapy and people with learning disabilities: implications for developing nursing practice.
Journal of Psychiatric and Mental Health Nursing. 13:234–241.
- 16. Coleg Brenhinol y Nyrsys (2003)**
Defining Nursing.
Llundain: RCN.
- 17. Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelwch y Cyhoedd (2005)**
Care at its Best. Report of the regional multidisciplinary inspection of the service for disabled children in hospital.
Stormont: DHSSPS.
- 18. Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2011)**
Standards for Competence [ar-lein].
Ar gael yn: <http://standards.nmc-uk.org/PreRegNursing/statutory/competencies/Pages/Competencies.aspx>
- 19. Learning Disability Consultant Nurse Network (2006)**
Shaping the Future: a vision for learning disability nursing.
Llundain: LDCNN.
- 20. Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2001)**
Standards for Specialist Education and Practice [ar-lein].
Ar gael yn: www.nmc-uk.org/Educators/Standards-for-education/Standards-for-specialist-education-and-practice
- 21. Roy A, Matthews H, Clifford P, Fowler V, Martin DM (2003)**
Health of the Nation outcome scales for people with learning disabilities.
The British journal of Psychiatry. 180:61–66.
- 22. NHS Education for Scotland (2011)**
Person Centeredness [ar-lein].
Ar gael yn: www.nes.scot.nhs.uk/education-and-training/by-theme-initiative/public-health/health-improvement/current-health-improvement-work/person-centredness.aspx
- 23. Michael J (2008)**
Healthcare for All: report of the independent inquiry into access to healthcare for people with learning disabilities.
Llundain: HMSO.
- 24. Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2011)**
Clinical Supervision [ar-lein].
Ar gael yn: www.nmc-uk.org/Nurses-and-midwives/Advice-by-topic/A/Advice/Clinical-supervision-for-registered-nurses
- 25. Griffiths P, Bennett J, Smith E (2007)**
The Research Base for Learning Disability Nursing; a rapid scoping review.
Llundain: King's College.



© Hawlfraint y Goron 2012

Cewch aildefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio logos a delweddau) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, yn unol â thelerau Trwydded Agored y Llywodraeth. I weld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence neu e-bostiwch: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Os ydym wedi rhoi gwybodaeth am hawlfraint unrhyw drydydd parti, bydd angen ichi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint perthnasol.

Ffotograffiaeth © www.photosymbols.com

ISBN: 978-1-78045-785-7

Llywodraeth yr Alban
St Andrew's House
Caeredin
EH1 3DG

Cynhyrchwyd ar ran Llywodraeth yr Alban gan APS Group Scotland

Cyhoeddwyd gan Lywodraeth yr Alban, Ebrill 2012